# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER<br>14 RHAGFYR 2022<br>am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY<br>14 DECEMBER 2022<br>at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID - YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING - VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones (Cadeirydd/Chair)
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Iorwerth Roberts
Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 6)

Cadarnhau cofnodion blaenorol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022.

**3 ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU** (Tudalennau 7 - 10)

Adroddiad gan y Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd er mwyn darparu gwybodaeth ar y broses a'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau.

**4 DATBLYGIAD A HYFFORDDIANT AELODAU** (Tudalennau 11 - 14)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar ddatblygiad a hyfforddiant Aelodau.

**5 CWYNION YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 15 - 20)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â :-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
ar gyfer Chwarteri 1 a 2 o 2022/2023

**6 PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 21 - 42)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ganlyniadau ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhwng 1 Mehefin a 30 Tachwedd 2022.

**7 PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 43 - 60)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru yng Nghymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 28 Mehefin 2022.

**8 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Mae'n arferol bod adroddiad yn cael ei baratoi gan y Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y

cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 28 Mehefin 2022 a dyddiad cyhoeddi'r agenda, nid oedd unrhyw geisiadau o'r fath wedi eu derbyn. Ar y sail hwn, nid oes adroddiad wedi'i gynnwys.

**9 PWYLLGOR SAFONAU YN MONITRO SAMPL O GYFARFODYDD CYNGOR/PWYLLGORAU** (Tudalennau 61 - 70)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro yn cynnwys manylion yr ymarfer a gyflawnwyd gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau i arsylwi sampl o gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'i Bwyllgorau.

**10 PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL** (Tudalennau 71 - 84)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig.

**11 AELODAU CYNGOR CYMUNED O'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 85 - 86)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y broses ar gyfer penodi dau aelod cyngor cymuned ar y Pwyllgor Safonau yn dilyn penderfyniad y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022.

**12 HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD AR GYFER Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 87 - 92)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar dair sesiwn hyfforddiant Cod Ymddygiad a gynigiwyd i'r Cynghorau Cymuned yn dilyn etholiad Mai 2022.

**13 CYLCH GORCHWYL Y FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL** (Tudalennau 93 - 96)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau yng Nghymru.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-Gadeirydd)<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mrs Sharon Warnes<br><br>**Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Celyn Menai Edwards (Aelod Annibynnol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Estynnodd groeso cynnes i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE a'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, oedd yn dychwelyd fel Aelodau ar y Pwyllgor Safonau. Estynnodd ei ddymuniadau gorau hefyd i'r Cynghorydd Keith Roberts, cyn aelod o'r Pwyllgor Safonau, yn ei rôl newydd fel Aelod Etholedig.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir, yn amodol ar y canlynol:-

**Materion yn codi o gofnodion 15 Rhagfyr 2021:-**

- Cytunwyd bod y Swyddog Monitro yn dosbarthu Cofnod Gweithredu wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod heddiw.
- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Mr Richard Penn wedi anfon ei argymhellion ymlaen at Lywodraeth Cymru ac y bydd Ymgynghoriad Cenedlaethol yn dechrau yn yr Hydref ynghylch cynigion yn deillio o adolygiad Mr Penn.

- Mynegodd y Pwyllgor bryder mai dim ond pedwar ar ddeg o Aelodau Etholedig oedd wedi llunio adroddiadau blynyddol y llynedd, er bod y Cyngor yn rhoi cymorth ac er anogaeth y Pwyllgor Safonau.

Penderfynwyd felly gwahodd y Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd i gyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau i drafod y gefnogaeth y mae'r Cyngor yn ei rhoi i Aelodau, pa broses ac amseriad fydd ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau a beth arall gall y Pwyllgor Safonau ei wneud i annog yr arfer.

**PENDERFYNWYD gwahodd y Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd i fynychu cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau i drafod y cymorth y gall y Cyngor ei roi i Aelodau o ran paratoi Adroddiadau Blynyddol Aelodau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw dueddiadau i'w gweld ar hyn o bryd, oherwydd yr ychydig iawn o gwynion a ffeiliwyd yn erbyn Aelodau Etholedig yn y blynyddoedd diwethaf.
- Bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn mynychu'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi a byddant yn trafod cynnwys y Cylchlythyr, gan gynnwys trafodaeth bosibl am ymestyn y protocol datrys lleol a monitro trafodion yn anffurfiol, i Gynghorau Tref a Chymuned.

## 3. DATBLYGU AELODAU

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol ar y Rhaglen Anwytho sydd ar gael i Aelodau Etholedig rhwng cyfnod yr etholiad a diwedd Mehefin 2022. Dywedodd ei bod wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Aelodau newydd, gyda 23 o sesiynau cynefino/hyfforddi wedi eu cynnal.

Cyfeiriodd y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol at y rhaglen Datblygu Aelodau Etholedig sydd wedi ei roi at ei gilydd, sy'n seiliedig ar Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac sy'n rhedeg o'r cyfnod sefydlu cychwynnol hyd at ddiwedd mis Mehefin gyda chynnllun dilynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf i fis Hydref. Mae'r Cynllun wedi'i newid ers iddo gael ei gyhoeddi o ganlyniad i'r sesiynau Sgriwtini yn cael eu hail drefnu.

Nodwyd y gallai fod cyfle i Aelodau Etholedig/aelodau lleyg/aelodau o'r Pwyllgor Safonau a allai fod wedi methu sesiwn hyfforddi benodol fynychu eto yn y dyfodol. Bydd manylion presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi dros y cyfnod cynefino wedi eu cwblhau erbyn diwedd Gorffennaf.

Bydd gan Aelodau fynediad at wybodaeth hyfforddiant yn electronig ar y Dangosfwrdd Aelodau Etholedig ar y Porth Dysgu. Mae modiwlau hyfforddi ar gael gan "CLILC" a byddant ar gael drwy borthol ar-lein yr Awdyrdod, y Porth Dysgu, yn ogystal â gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn y Bwletin Anwytho'r Aelodau.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod hyfforddiant Rheoli Data ac Ymwybyddiaeth Seiber yn orfodol i staff y Cyngor, Aelodau Etholedig ac aelodau Cyfetholedig.

Mynegwyd pryderon nad yw'n ymddangos bod rhai aelodau'n mynychu sesiynau hyfforddi gorfodol. Awgrymwyd felly bod y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol yn darparu data cyfredol ar hyfforddiant i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn, er mwyn mynychu cyfarfod Arweinwyr Grŵp i drafod hyfforddiant gorfodol.

Nodwyd y bydd sesiynau hyfforddi yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol am y tro. Nodwyd ymhellach y bydd y posibilrwydd o recordio sesiynau hyfforddi mewnol hefyd yn cael ei ystyried, yn ogystal â datblygu dull hybrid o gyflwyno hyfforddiant yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys y Cynllun.**
- **Y bydd y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol yn gwneud ei orau i ddarparu data cyfredol ar bresenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant gorfodol i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn cyn iddynt fynychu cyfarfod nesaf yr Arweinwyr Grŵp i rannu data cydymffurfio cyffredinol gyda'r Grŵp a data ar wahân ar gyfer pob Arweinydd Grŵp ynghylch cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol o fewn pob grŵp unigol.**
- **Bod y Swyddog Monitro, Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol, y Pennaeth Archwilio a'r Rheolwr Sgriwtini yn hysbysu AD ynghylch pa sesiynau fydd yn orfodol i Aelodau anetholedig y Pwyllgor.**
- **Y bydd y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol yn gwneud ymholiadau i sefydlu a allai fod yn ymarferol i hyfforddwyr mewnol recordio eu sesiynau a sicrhau eu bod ar gael yn ddigidol i Aelodau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 4. CWYNION YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar ffurf matrics wedi’i ddiweddaru ar y cwynion chwarterol a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod OGCC wedi derbyn un gŵyn yn erbyn Cynghorydd Sir gan aelod o’r cyhoedd rhwng Hydref - Rhagfyr 2021 (Ch3), a phenderfynodd OGCC beidio ag ymchwilio’r gwyn. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorydd Sir rhwng Ionawr 2022 – Mawrth 2022 (C4).

Nodwyd bod un gŵyn wedi’i chyflwyno i OGCC yn erbyn Cynghorydd Tref yn ystod Chwarter 3, 2021, ac mae’r ymchwiliad yn parhau. Derbyniwyd un gŵyn hefyd yn erbyn Cynghorydd Tref ar gyfer Chwarter 4, a wrthodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys Atodiadau 1-4.**

- **Bod y Swyddog Monitro yn dosbarthu Atodiadau 1-4 i aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor, ac aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy'r Cylchlythyrau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 5. PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro yn crynhoi 4 penderfyniad a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 16 Rhagfyr 2021.

Dywedodd y Swyddog Monitro y bydd penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru yn cael eu cynnwys yn y Cylchlythyr i Gynghorwyr Sir a Chylchlythyr i Gynghorwyr Tref a Chymuned.

Rhoddodd y Swyddog Monitro grynodeb o'r materion allweddol a'r pwyntiau dysgu o bob un o'r achosion a adroddwyd, a drafodwyd wedyn gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys y crynodebau achos.**
- **Bydd y Cylchlythyr i Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned yn cynnwys dolenni i'r achosion a adroddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru a'r crynodebau achos o'r pwyntiau dysgu yn yr Agenda hon.**
- **Bod Egwyddorion Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus (sef Egwyddorion Nolan fel y'u mabwysiadwyd gan Statud yng Nghymru) yn cael eu defnyddio fel prif ffocws y Cylchlythyr nesaf.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ar yr uchod.

Adroddodd y Swyddog Monitro ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf), baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol, a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Dywedodd y bydd y Cadeirydd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Statudol cyntaf y Pwyllgor i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2022.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod gofynion penodol yn y Ddeddf o ran yr hyn sydd angen ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Dywedodd fod y Pwyllgor Safonau eisoes yn cydymffurfio â meini prawf y ddeddfwriaeth newydd. Nodwyd y bydd yn ofyniad statudol i bob Pwyllgor Safonau gyflwyno Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

Pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:-

- Lle bo nifer y cwynion yn caniatáu, bydd unrhyw dueddiadau neu batrymau yn cael eu nodi yn y dyfodol. Recriwtio aelodau Cynghorau Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau. Eglurodd y Swyddog Monitro y drefn a'r amserlen. Os derbynnir mwy na dau enwebiad, yna bydd pleidlais bost yn dilyn gyda'r dewis yn cael ei wneud gan y Cynghorau Tref a Chymuned a'i gadarnhau trwy adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2022.
- O ystyried y ddyletswydd statudol newydd ar arweinwyr grŵp o ran ymddygiad aelodau eu grŵp, bydd Adroddiad Pwyllgor Safonau'r flwyddyn nesaf yn mynd i'r afael â sut mae'r Arweinwyr Grwpiau wedi mynd i'r afael â'u dyletswydd newydd a sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi eu cefnogi i wneud hynny; gan gynnwys trefnu hyfforddiant ar gyflawni'r ddyletswydd newydd.
- Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben mewn perthynas â'r canllawiau drafft ar y ddyletswydd statudol newydd. Pan gyhoeddir y fersiwn derfynol, dylem fod yn edrych ymhellach ar sut y bydd y Pwyllgor Safonau yn hyfforddi/cefnogi'r Arweinwyr Grwpiau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar fân newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y drafodaeth.**
- **Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Medi 2022.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

**7. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith Ddrafft y Pwyllgor Safonau i'w thrafod.

- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Swyddog Monitro na fyddai'n bosibl gosod terfynau amser penodol ar raglen waith flynyddol y Pwyllgor. Mae hyn oherwydd bod llawer o'i gyfrifoldebau statudol, fel cynnal gwrandawiadau ar atgyfeiriad gan OGCC, neu benderfynu ar geisiadau am oddefeb, yn dibynnu ar yr atgyfeiriadau neu'r ceisiadau a wneir gan eraill. Unwaith y bydd hynny wedi digwydd, mae amserlenni wedi'u gosod o fewn y prosesau sydd wedi'u cyhoeddi gan y Pwyllgor Safonau. Mae materion eraill, megis datrysiad lleol, hefyd yn adweithiol fel y mae ymgynghoriadau'r llywodraeth, a gosod y Fforwm Safonau Cenedlaethol a chyfarfodydd gydag Arweinwyr Grwpiau.
- Cytunwyd eisoes ar gyfarfodydd anffurfiol gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd a dosbarthwyd gwahoddiad gan y pwyllgorau i Aelodau'r Pwyllgor Safonau i drafod, yn y cyfarfod cyntaf, gynnwys y cylchlythyrau a'r profforma i'w defnyddio ar gyfer monitro anffurfiol o Gyfarfodydd Pwyllgor. Roedd ail gyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Safonau wedi'i drefnu i drafod y protocol datrysiad lleol drafft. Mae'r drafft o'r Pro-forma Pwyllgor a'r protocol datrysiad lleol wedi'u rhannu â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.
- O ran arsylwi'r trafodion, cytunwyd y bydd angen gosod amserlen a gellir ei thrafod yn y cyfarfod anffurfiol ynghyd â sut a phryd y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn adrodd yn ôl.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn diweddaru'r Pwyllgor Safonau ar ei raglen waith a'i gofnod gweithredu cyn cyfarfodydd ffurfiol a bod y rhaglen waith, y cofnod gweithredu a'r materion "cadw tŷ" i'w trafod mewn cyfarfodydd anffurfiol i'w trefnu cyn cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau. Bydd hyn yn ychwanegol at y cyfarfodydd briffio arferol ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

Daeth y cyfarfod hwn i ben am 4.00 pm

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ddarparu gwybodaeth am adroddiadau blynyddol Aelodau ar gyfer 2021/2022 a 2022/2023** |
| **AWDUR:** | **Bethan Eirian E Griffith<br>Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Bethan Eirian E Griffith<br>Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd<br>BethanGriffith@ynysmon.llyw.cym** |

## 1. Pwrpas yr adroddiad

Gwahoddiad gan y Pwyllgor hwn (Mehefin 2022) ynghylch y paratoadau ar gyfer creu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol gan Aelodau.

## 2. Cefndir

Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol Aelodau ers 2013/14. Er nad oes gofyn statudol i Aelodau gwblhau adroddiad, yn hanesyddol ystyriwyd ei bod yn arfer dda er mwyn hybu atebolrwydd lleol a chyflwyno gwybodaeth am gyfrifoldebau a swyddogaethau Aelodau. Mae'r adroddiad yn sail i gyfarfodydd Adolygiadau Datblygiad Personol yr Aelodau hefo'i Arweinyddion Grwpiau, ac felly'n fodd o gynorthwyo'r Cyngor i gynnal ei Gynllun Datblygu Aelodau ar gyfer y dyfodol.

Mae adroddiadau blynyddol blaenorol a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar ran yr Aelodau i'w gweld ar y ddolen yma.

## 3. Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2021/2022

Mae adroddiadau blynyddol 2021/2022 yn berthnasol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd nes 31 Mawrth 2022.

Yn dilyn y cais yn y cyfarfod olaf yn mis Mehefin, mae 4 Adroddiad Blynyddol wedi dod i law ar gyfer y cyfnod yma allan o'r 18 Aelod Etholedig sydd wedi cadw eu seddi. Mae'r adroddiadau yma wedi eu uwch lwytho i'r wefan ddiwedd mis Tachwedd. Mae hyn yn hwyrach na'r amserlen arferol (bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod yr Haf fel arfer) oherwydd blaenoriaethau eraill yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a'r anawsterau wrth benodi Pennaeth Newydd i'r Gwasanaeth.

## 4. Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2022/2023

Bydd adroddiadau blynyddol 2022/2023 yn berthnasol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd nes 31 Mawrth 2023. Hon fydd adroddiad blynyddol cyntaf nifer o'r Aelodau a bydd yn cynnwys trosolwg o flwyddyn yr Aelodau Etholedig ar Gyngor Sir Ynys Môn ers eu hethol ym mis Mai 2022.

Cefnogaeth a roddir i'r Aelodau Etholedig:

- Cyfarfod 1:1 (cyfarfodydd fesul un) yr Aelodau efo'r Arweinydd Grŵp
- Rhannu'r Templed yn ddigon buan i Aelodau allu ei lenwi wrth fynd ymlaen (ers 14/07/2022)
- Adnoddau Dynol yn gallu cynorthwyo i lawrlwytho gwybodaeth am sesiynau Hyfforddi a fynychwyd.
- Amserlen 2022 – 2023? Gweler pwynt 4.2 isod, ond gyda dyfodiad Pennaeth newydd ar 03/01/2023 efallai y cawn amrywiad i hyn.

### 4.1 Templed yr adroddiad

Rhannwyd templed adroddiad efo'r holl Aelodau ar 14 Gorffennaf 2022 er mwyn (a) hysbysu Aelodau newydd o'r arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol a (b) cynnig y cyfle i'r holl Aelodau allu cadw cofnodion ar hyd y flwyddyn, os ydynt yn dymuno, er mwyn eu cynorthwyo pan fyddant yn dod i ddrafftio eu hadroddiad blynyddol terfynol ar ôl 31 Mawrth 2023.

Mae'r templed yn rhoi'r cyfle i Aelodau nodi'r gwaith y maent wedi ei wneud ar ran eu hetholwyr; o faterion lleol yn y ward, i'w cyfraniadau ar gyrff allanol ynghyd â'u rolau corfforaethol yn y Cyngor.

Y penawdau o fewn y templed ydi:

| | |
|---|---|
| **Rôl a chyfrifoldebau'r Aelod**<br>- **Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau y bu'r Aelod yn eistedd arnynt**<br>- **Cyrff allanol y bu'r Aelod yn cynrychioli'r Cyngor arnynt** | Cyfle i Aelodau restru'r Pwyllgorau, Is-Bwyllgorau a Chyrff Allanol y maen nhw wedi bod yn eistedd arnynt a chynnwys gwybodaeth am lefel eu presenoldeb mewn cyfarfodydd, eu rôl a'u cyfraniad.<br>Gall Aelodau edrych ar eu bywgraffiadau ar wefan y Cyngor am y wybodaeth hon. |
| **Gweithgareddau yn y Ward** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am y materion y maent wedi bod yn ymwneud â nhw o fewn eu ward.<br>Bydd angen i Aelodau ddwyn i gof eu gweithredoedd yn y ward; gorau oll os gall Aelodau gadw nodyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am unrhyw fentrau neu weithgareddau arbennig y maent wedi bod yn ymwneud â nhw.<br>Bydd angen i Aelodau ddwyn i gof eu gweithredoedd; gorau oll os gall Aelodau gadw nodyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. |
| **Dysgu a Datblygu** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau ganddynt. |

| | |
|---|---|
| | Gall Aelodau gysylltu gydag Adnoddau Dynol am wybodaeth ynghylch unrhyw Hyfforddiant â drefnwyd ar eu rhan gan y Cyngor. |
| **Gweithgareddau a Materion Eraill** | Cyfle i Aelodau gynnwys gwybodaeth am unrhyw weithgareddau y maent wedi bod yn ymwneud â nhw. Bydd angen i Aelodau ddwyn i gof eu gweithredoedd; gorau oll os gall Aelodau gadw nodyn wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. |

### 4.2 Amserlen

Y bwriad ydi bod y Pennaeth Democratiaeth yn briffio Arweinyddion Grŵp ar yr amserlen derfynol o ran cwblhau a chyhoeddi adroddiadau blynyddol 2022-2023. Os dilynir y drefn arferol, bwriedir iddo fod yn debyg i hyn:

| | |
|---|---|
| 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 | Cyfnod yr adroddiad blynyddol nesaf |
| Ionawr 2023 | Pennaeth Democratiaeth yn adrodd i'r Arweinyddion Grŵp am yr amserlen ar gyfer derbyn / cyhoeddi adroddiadau gan atgoffa Aelodau a'u hannog i gwblhau yr adroddiadau blynyddol. |
| Ebrill a Mai 2023 | Caniatáu cyfnod rhesymol o ddau fis yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2023 i Aelodau gwblhau eu hadroddiadau blynyddol.<br>Dyddiad cau i Aelodau anfon eu hadroddiadau blynyddol at y Pennaeth Democratiaeth fydd 31 Mai. |
| Mehefin 2023 | Pennaeth Democratiaeth yn adrodd i'r Arweinyddion Grŵp am y nifer o Aelodau o fewn unrhyw Grŵp sydd wedi / ddim wedi cwblhau adroddiad blynyddol erbyn y dyddiad cau.<br>Gellir trafod cael estyniad amser, ond y bwriad fydd mynd ymlaen at y cam nesaf. |
| Mehefin neu Gorffennaf 2023 | Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar wefan y Cyngor ar y ddolen yma |

### 5. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Hyrwyddwr Datblygu Aelodau 04 Hydref 2022

Yn dilyn argymhelliad yn y Pwyllgor hysbysodd Lynn Ball yr arweinyddion grwpiau o'r angen i anfon yr adroddiadau blynyddol ar gyfer 2021/2022 ar 12/10/22, gan gynnwys y templed i'w ddychwelyd erbyn 31/10/2022.

### 6. Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 14eg RHAGFYR 2022 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I ROI DIWEDDARIAD O RAGLEN HYFFORDDIANT A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG YN DILYN YR ETHOLIAD MIS MAI 2022 |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yma ydi rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau o'r sesiynau Hyfforddiant a Datblygu sydd wedi ei cynnig a'i derbyn gan Aelodau Etholedig ers Mai 2022.

Mae'r adroddiad hefyd yn ymateb i'r cais gweithredu amlygwyd yn dilyn yr adroddiad gyflwynwyd I'r Pwyllgor Safonau mis Mehefin 2022.

## 2. Y CYNLLUN

Rhwng 11eg o Fai a'r 12fed o Ragfyr, mae 47 diwrnod o hyfforddiant wedi ei gynnig gan y Tim Datblygu Adnoddau Dynol, i Aelodau Etholedig. Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â ystod eang o feysydd, rhai yn ymwneud â rhai Aelodau Pwyllgorau penodol e.e. Cynllunio; Awdit yn ogystal a chynnig sesiynau cyffredinol megis sgiliau TG.

Mae cyrsiau yn ymwneud a sgiliau cyffredinol Cadeirio wedi ei cynnig (ac hefyd ar gael fel modiwl e-ddysgu) a bu sesiwn Cadeirio ar gyfer Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion Craffu gael ei gynnig yn ddiweddar gyda 8 Aelod Etholedig yn mynychu.

Yn nhermau mynychiant sesiynau, mae hyn wedi bod yn amrywiol.

Mewn perthynas a'r cyrsiau tybir fod yn fandadol, mae'r lefelau mynychu fel a nodir isod:

- Côd Ymddygiad x29

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth x24
- Egwyddorion Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) x12
- Diogelwch Seibr x35

## 3. CYFATHREBIADAU

Yn nhermau cyfathrebiadau, ac fel dilyniant i'r cynllun hyfforddiant cychwynol gyhoeddwyd, mae Bwletinau Aelodau Etholedig wedi cael ei cyhoeddi a'i cylchrhedeg, gyda'r bwriad o hyrwyddo hyfforddiant sydd wedi ei drefnu.

Mae fersiynau electronic o'r bwletinau ar gael o fewn Dashfwrdd Aelodau Etholedig (lansiwyd mis Gorffennaf) ac sydd ar gael ar Platform E-Ddysgu'r Awdurdod, Learning Pool. Yma, mae gan Aelodau Etholedig hefyd yn cael mynediad i wybodaeth yn ymwneud â Iechyd & Llesiant; modiwlau cyffredinol, yn ogystal a modiwlau sy'n benodol ar gyfer ei rolau.

Mae'r data'n dangos fod 16 Aelod wedi mynd i'r safle hyd yma.

Yn ogystal a'r uchod, mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn cael ei rhannu drwy ebyst/apwyntiadau.

## 4. FFURF TROSGLWYDDO

Mae trosglwyddo sesiynau hyfforddiant yn parhau i gymeryd lle drwy gyfryngau fel MSTeams/Zoom yn ogystal a defnyddio adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar blatfform E-Ddysgu'r Awdurdod, Learning Pool, sy'n galluogi mynediad ar unrhyw amser.

Mae amseriad sesiynau'n cael ei adolygu'n barhaus yn ystyr pryd ma'r sesiynau'n cael ei cynnal e.e. yn ystod y dydd/hwyr p'nawn/gynnar gyda'r hwyr, fel fod ymrwymiadau gwaith/gofal yn cael ei cymeryd I ystyriaeth ac er mwyn uchafu'r niferoedd yn mynychu. Lle bynnag yn bosibl ac yn ymarferol, bydd y Tim Datblygu yn ceisio cynnig opsiynau o ddyddiadau/amseroedd.

## 5. I GRYNHOI

Tra fod Hyfforddiant wedi lleddfu rhywfaint ers y misoedd cychwynol, mae hyfforddiant pellach fel yr adnabuwyd yn y cynllun cychwynnol e.e. Iechyd, Dioglewch & Llesiant yn cael ei gynnig yn y Flwyddyn Newydd.

Yn naturiol, bydd y cynllun yn parhau i gael ei adolygu a'i addasu wrth dderbyn mewnbwn pellach gan rhanddeiliaid fydd yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion hyfforddiant a'i gyflwyno'n amserol.

## 6. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad

**Miriam Williams**
**Rheolwr Hyfforddiant AD**
**Rhagfyr 2022**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2021) a Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2022) yn 2021/2022 yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 28 Mehefin 2022.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn 2022/2023 [Ebrill – Mehefin 2022], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn 2022/2023, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2 yn 2022/2023 [Gorffennaf – Medi 2022], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2 yn 2022/2023, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarteri 1 a 2 **(Atodiadau 1 - 4)** yn cael eu dosbarthu o fewn y Newyddlenni i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1 - 4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthu yr **Atodiadau 1-4** efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor o fewn eu Newyddlenni perthnasol.

ATODIAD 1

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2022) – 2022/2023 – Quarter 1 (April - June 2022)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r Cyhoedd/ Member of the Public | (i) 023996<br>(ii) 202108602 | 01/04/2022 | 20/04/2022 – O wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn / O has decided not to investigate the complaint. |

ATODIAD 2

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2022) – 2022/2023 - Quarter 1 (April – June 2022)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023643<br>(ii) 202103868 | 06.09.2021 | 05.05.2022 ymchwiliad wedi ei derfynu / investigation discontinued |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Aelod o Bwyllgor (ddim fel aelod o'r cyhoedd) / Member of Committee (not as a member of the public) | (i) 019837<br>(ii) 202200009 | 31.03.2022 | 20.05.2022 Ddim yn ymchwilio / Not investigating |

ATODIAD 3

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2022) – 2022/2023 – Quarter 2 (July – September 2022)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT | | | | |

ATODIAD 4

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2022) – 2022/2023 – Quarter 2 (July – September 2022)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer holl Gynghorau Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 30 Tachwedd 2022.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Cychwynnodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ei swydd newydd ar 1 Ebrill 2022. Mae rhai o arferion yr OGCC wedi eu newid bellach; mae hyn yn cynnwys y ffordd mae'n cyhoeddi penderfyniadau ar faterion Cod Ymddygiad.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol mai un o'r eitemau sefydlog ar raglen y Pwyllgor yn ei ddau gyfarfod ffurfiol y flwyddyn oedd adolygiad o Goflyfrau Cwynion Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd gan OGCC. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon wedi dweud na fydd Coflyfrau Cod Ymddygiad yn cael eu cyhoeddi ar ôl Ebrill 2021 ac y bydd holl achosion OGCC yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o dan benawdau penodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y penawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan OGCC ar gyfer y misoedd Mehefin hyd Tachwedd 2022 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig [**ATODIAD 1].**

## 2. CEFNDIR

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arnynt i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCCyn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys OGCC yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; neu

(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.
Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.
Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.**<br><br>Cyngor Tref Tywyn<br><br>Cyfeirnod achos 202005528 | 07/06/2022 | Cwynodd yr Achwynydd fod y cyn Aelod wedi gwneud honiadau ffug am y cyn Glerc ac Aelodau eraill o'r Cyngor Tref, ac wedi tanseilio a bychanu'r cyn Glerc yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref.<br><br>Cafodd yr OGCC wybodaeth gan Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd ("y Cyngor"), y Cyngor Tref, tystion a'r yn Aelod. Yn ystod yr ymchwiliad gwnaed sawl ymgais i gael datganiad ffurfiol gan yr Achwynydd, ond ni fu llwyddiant.<br><br>. | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 4(b) – rhaid dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>- 4(c) – rhaid peidio ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson.<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Roedd ymchwiliad yr OGCC o'r farn, er bod y Cyn Aelod wedi ymddiswyddo o'r Cyngor Tref yn ystod yr ymchwiliad, roedd y cyn Aelod wedi parhau'n Aelod o Gyngor Sir Gwynedd ac wedi sefyll i'w ailethol i'r Cyngor. Fodd bynnag, yn y pen draw, ni chafodd y cyn Aelod ei ethol gan yr etholwyr lleol ac felly nid oedd bellach yn aelod ar lefel tref na sir. O ganlyniad, nid oedd yr OGCC bellach yn fodlon bod ymchwilio i'r gŵyn er budd y cyhoedd, a phenderfynwyd terfynu'r ymchwiliad. | COD – Rhoddwyd y gorau | Dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael yn y crynodeb achos. Fodd bynnag, mae'n dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel.<br><br>Oherwydd nad oedd yr unigolyn yn aelod mewn cyngor cymuned na chyngor sir, penderfynodd OGCC roi'r gorau i'r ymchwiliad; efallai byddai OGCC wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd wahanol petai'r unigolyn yn parhau i fod yn gynghorydd cymunedol neu sirol.<br><br>Nid oes dim yn atal y cyn Aelod rhag sefyll mewn etholiad neu is-etholiad yn y dyfodol. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.**<br><br>Cyngor Cymuned Langstone<br><br>Cyfeirnod achos 202101430 | 08/06/2022 | Honnodd yr achwynydd fod y cyn-Aelod o Gyngor Cymuned Langstone yn dreisgar ac yn sarhaus yn ystod anghydfod y tu allan i eiddo'r achwynydd. Honnwyd hefyd bod y cyn-Aelod yn gweithredu busnes gwaredu gwastraff anghyfreithlon ar ei eiddo. | Dyletswydd i gynnal y gyfraith.<br><br>Ystyried torriad o baragraff:<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Canfu ymchwiliad yr OGCC, er bod Hysbysiad Gorfodi ar gyfer achos honedig o dorri rheolaeth gynllunio wedi'i gyflwyno yn erbyn y cyn-Aelod, nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cyn-Aelod wedi ymwneud â materion cynllunio mewn swyddogaeth swyddogol a bod y mater yn ymwneud â mater preifat y cyn-Aelod yn unig. Yn ogystal, roedd gan y cyn-Aelod apêl barhaus yn erbyn y Rhybudd Gorfodaeth, nad oedd wedi ei phenderfynu.<br><br>Canfu'r ymchwiliad hefyd fod yna elyniaeth hanesyddol rhwng y ddau barti a bod y ddau, yn ystod yr anghydfod, wedi defnyddio ymddygiad rhegyddol ac ysgogol, ac arweiniodd hyn at y cyn-Aelod yn taflu ei ddwrn a bod y mater yn cael ei adrodd i'r Heddlu. Ni chymerodd yr Heddlu unrhyw gamau pellach ac ymddiswyddodd y cyn-Aelod o'r Cyngor yn ystod yr ymchwiliad.<br><br>Ystyriodd yr OGCC, gan nad oedd y mater yn ddigon difrifol i'r Heddlu weithredu, ac nad oedd y cyn-Aelod bellach yn gynghorydd, ei bod yn annhebygol y byddai'r cyn-Aelod yn derbyn cosb, ac nad oedd er budd y cyhoedd i barhau gyda'r achos. | COD – Nid oes angen gweithredu | Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel.<br><br>Oherwydd nad oedd yr unigolyn yn parhau fel aelod o'r cyngor cymuned, ac nad oedd yr Heddlu wedi gweithredu yn yr un digwyddiad, penderfynodd OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ynghylch y mater hwn. Petai'r unigolyn yn parhau i fod yn gynghorydd cymunedol efallai byddai OGCC wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd wahanol, er gwaethaf penderfyniad yr Heddlu, oherwydd mae'r lefel o brawf yn wahanol mewn materion cyfreithiol a sifil. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.<br><br>Cyngor Tref Pencoed<br><br>Cyfeirnod achos 202005940 | 17/06/2022 | Roedd cyn Gynghorydd o Gyngor Tref Pencoed wedi methu â datgan euogfarn droseddol pan safodd etholiad yn 2018 ac wrth wneud hynny wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig. Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y cyn Gynghorydd wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd ym mis Gorffennaf 2015 a bod yr euogfarn hon yn ei anghymhwyso rhag sefyll fel aelod etholedig. Safodd y cyn Gynghorydd i'w ethol i Gyngor Tref Pencoed ym mis Tachwedd 2018 ac ni allai fod wedi gwneud hynny pe na bai wedi gwneud datganiad ffug ar ei bapur enwebu. Ni ddaeth y twyll i'r amlwg nes i erthygl ymddangos mewn papur newydd cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2020. Ymddiswyddodd y cyn Gynghorydd unwaith y daeth y wybodaeth | Uniondeb.<br><br>Ystyried torriad o baragraff:<br><br>6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn modd allai yn rhesymol gael ei ystyried fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar eu rol neu eu hawdurdod. | Ystyriodd OGCC fod y cyn Gynghorydd wedi camarwain y Cyngor Tref ynghylch eu cymhwysedd i fod yn Gynghorydd a bod eu hanonestrwydd, wrth lofnodi'r datganiad derbyn swydd ac yn ystod y flwyddyn a'r 8 mis y bu'n gweithredu fel Cynghorydd, yn gamddefnydd difrifol.o'i swydd sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymddygiad. Ni ymgysylltodd y cyn Gynghorydd â'r ymchwiliad ac ni roddodd unrhyw esboniad am eu gweithredoedd na dangos unrhyw edifeirwch.<br><br>Cyfeiriod OGCC y mater at Banel Dyfarnu Cymru (PDC). Clywodd PDC yr achos ar 10 Mehefin 2022 a chanfu fod y cyn Gynghorydd wedi'i ethol ar sail ffug a bod ei ddatganiad yn derbyn y swydd, yn ymrwymo i gadw at y Cod, ac i barhau yn ei swydd, wedi digwydd ar yr un rhagosodiad ffug. Canfu PDC fod y Caniatâd i Enwebu a'r Canllawiau i Ymgeiswyr mor glir fel ei bod yn annirnadwy nad oedd y Cyn Gynghorydd yn ymwybodol o'r ffaith ei fod wedi'i wahardd rhag cael ei ethol a bod ei weithredoedd naill ai'n fwriadol neu o ganlyniad i fyrbwylltra eithafol.<br><br>Canfu PDC fod y ffaith bod y cyn Gynghorydd wedi'i wahardd rhag cael ei ethol ac eto'n parhau i weithredu | COD - Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | Mae unigolion sydd wedi derbyn euogfarn troseddol o fewn y pum mlynedd cyn diwrnod etholiad, neu ar ôl iddynt gael eu hethol yn euog o drosedd yn y DU ac yn derbyn cosb o gyfnod o dri mis neu fwy mewn carchar (yn cynnwys dedfryd wedi ei gohirio), heb opsiwn am ddirwy ac mae'r cyfnod arferol ar gyfer apelio neu wneud cais ynghylch yr euogfarn wedi pasio wedi eu anghymwyso rhag sefyll mewn etholiad. [*Adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*.]<br><br>Mae'r achos hwn yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad ar wahân sy'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ynghylch penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru [eitem 7 ar Raglen y Pwyllgor Safonau ar |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hon yn gyhoeddus ond roedd wedi gweithredu fel aelod am 1 flwyddyn ac 8 mis pan nad oedd yn gymwys i wneud hynny. | | fel Aelod yn mynd at wraidd ymddiriedaeth y cyhoedd mewn democratiaeth ac yn tanseilio'r Cod a'r gyfundrefn safonau. Parhaodd y cyn Gynghorydd i ymdrin â'i etholwyr a gweithredu ar sail ffug ac roedd hyn yn gyfystyr â thorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod yn amlwg. Nododd hefyd y byddai'r sylw a'r anniddigrwydd sylweddol yn y cyfryngau a'r cyhoedd, yn anochel, yn dwyn anfri ar swydd yr Aelod a'i Awdurdod.<br><br>Daeth PDC i'r casgliad y dylai'r cyn Gynghorydd gael ei ddiarddel am 24 mis rhag bod yn aelod o'r Cyngor neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000, neu ddod yn aelod ohono.<br><br>Mae dolen at benderfyniad PDC ynghylch cyn Gynghorydd Gordon Lewis i'w gweld yma. | | 14/12/2022]. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.**<br><br>Cyngor Sir Penfro<br><br>Cyfeirnod achos 202000660 | 17/06/2022 | Cafodd yr OGCC gŵyn bod Aelod o Gyngor Sir Penfro wedi cyhoeddi neges ym mis Mehefin 2020 ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol Facebook, y gellid ei ystyried yn hiliol, ac y gallai niweidio enw da swydd Cynghorydd a'r Cyngor.<br><br>Canfu ymchwiliad yr OGCC fod yr Aelod wedi cyhoeddi ei sylw yn gyhoeddus er mwyn codi pryderon ynghylch penderfyniad y Cyngor i dynnu sylw at Neuadd y Sir i gefnogi Black Lives Matter. Dileodd yr Aelod ei dudalen proffil Facebook yn ei chyfanrwydd rai wythnosau'n ddiweddarach. Cafwyd nifer o gwynion am y sylw i'r Cyngor ac i swyddfa'r OGCC, ac roedd yr Aelod yn destun diddordeb lleol a chenedlaethol yn y Wasg, yn ogystal â sylw sylweddol ar Facebook. Dywedodd | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 4(b) – rhaid dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Derbyniodd yr OGCC fod gan yr Aelod yr hawl i gwestiynu penderfyniad y Cyngor i gefnogi Black Lives Matter, fodd bynnag roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan yr Aelod yn dramgwyddus ac yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylid gan gynghorydd mewn trafodaeth wleidyddol. Nid oedd yr Aelod wedi manteisio ar gyfleoedd i fynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth na hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Penderfynodd yr OGCC y gallai'r Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol paragraff 6(1)(a) gan y gellid yn rhesymol ystyried ei fod wedi ymddwyn mewn modd a allai ddwyn anfri ar swydd aelod, neu ar y Cyngor ei hun.<br><br>Cyfeiriodd yr OGCC ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Sir Penfro i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod yr Aelod wedi gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd a'i geryddu am dorri paragraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod. Dywedodd y byddai wedi ystyried atal dros dro pe bai'r Aelod wedi'i ail-ethol yn yr etholiadau Llywodraeth Leol diweddar.<br>. | COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Gellir gweld Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau pan ystyriwyd y mater hwn mewn Gwrandawiad ar wefan Cyngor Sir Penfro ar y ddolen hon.<br><br>Ystyriwyd fod y torriad o'r Cod gan y Cynghorydd yn ddifrifol. Ond oherwydd nad oedd bellach yn gwasanaethu fel Cynghorydd, roedd yr opsiynnau cosbi oedd ar gael i'r Pwyllgor Safonau wedi eu cyfyngu.<br><br>Mae gan CSYM Brotocol ar Gyfryngau Cymdeithasol wedi ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor (adran 5.10). |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yr Aelod ei fod o'r farn bod y sylw yn dod o fewn ei hawl i ryddid mynegiant oherwydd nad oedd yn credu ei fod wedi tramgwyddo unrhyw un mewn gwirionedd, a chymhelliad gwleidyddol oedd i'r cwynion a wnaed yn ei erbyn. | | | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.**<br><br>Cyngor Cymuned Llansanffraid<br><br>Cyfeirnod achos 202004442 | 24/06/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Llansanffraid wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod yn gysylltiedig â digwyddiad gyda chontractwr y Cyngor ("y Contractwr"), ac o ganlyniad cafwyd ymchwiliad gan yr Heddlu. Yn dilyn hynny, plediodd yr Aelod yn euog i gyhuddiad o achosi niwed corfforol drwy yrru'n wyllt ac yn bryfoclyd. | Dyletswydd i gynnal y gyfraith.<br><br>Ystyried torriad o baragraff:<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Cafwyd adroddiad tyst gan y Clerc a chafwyd gwybodaeth gan yr Heddlu a'r Llys. Gwrthododd yr Aelod gydweithredu ag ymchwiliad yr OGCC. Canfu'r ymchwiliad fod natur y trosedd, a oedd yn ymwneud â Chontractwr y Cyngor, yr effaith ar y bechgyn ifanc a gafodd eu hanafu yn y digwyddiad, a'r cyhoeddusrwydd ynghylch y digwyddiad, a gyfeiriodd at y Cyngor, yn awgrymu y gallai gweithredoedd yr Aelod fod wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r Cyngor.<br><br>Cafodd yr adroddiad ar yr ymchwiliad ei gyfeirio at sylw Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer penderfyniad gan dribiwnlys.<br><br>Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad drwy ddwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd. Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys y dylai'r aelod gael ei wahardd am 12 mis rhag bod yn aelod o'r awdurdod neu ddod yn aelod o unrhyw awdurdod perthnasol arall.<br><br>Mae dolen at benderfyniad PDC ynghylch Cyn Gynghorydd Caryl Vaughan i'w gweld yma. | COD - Cyfeiriwyd at Panel Dyfarnu Cymru | Mae'r achos hwn yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad ar wahân sy'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ynghylch penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru [eitem 7 ar Raglen y Pwyllgor Safonau ar 14/12/2022]. |

CC-022335-MY/00727882

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.**<br><br>Cyngor Cymuned Tiers Cross<br><br>Cyfeirnod achos 202005972 | 28/06/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn gan aelod o'r cyhoedd fod aelod o Gyngor Cymuned Tiers Cross wedi methu â datgan buddiant mewn mater amgylcheddol / cynllunio, ei fod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol, ac wedi anfon e-bost at gyflogwr yr achwynydd mewn ymgais i daflu anfri arni. | Datgan a chofrestru diddordeb.<br><br>Ystyried torriad o baragraffau:<br><br>- 11(1) – rhaid datgan diddordeb personol mewn cyfarfod o'r awdurdod<br><br>- 14(1)(a)(ii) – rhaid gadael cyfarfod pan fo gan aelod ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei drafod<br><br>- 5(a) - rhaid peidio datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny<br><br>- 7(a) – rhaid, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddynt eu | Roedd yr OGCC o'r farn bod gan yr Aelod fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater amgylcheddol/cynllunio, gan fod y person dan sylw hefyd yn landlord i'r Aelod ac yn berthynas drwy briodas.<br><br>Canfu'r OGCC y torriadau hyn:<br>- fod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant mewn cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Awst 2020. Datganodd yr Aelod fuddiant mewn cyfarfodydd fideo a gynhaliwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2021 ond ni adawodd y cyfarfodydd pan drafodwyd y mater.<br>- fod yr Aelod wedi rhannu gwybodaeth a gafodd fel Aelod o'r Cyngor gyda'i landlord<br>- for yr Aelod wedi anfon nifer o negeseuon e-bost am y mater at gyd-aelodau o'r Cyngor, er bod ganddo fuddiant. Roedd y negeseuon e-bost yn feirniadol o'r achwynydd ac yn cefnogi'r person a oedd yn ymwneud â'r materion.<br>- Fod yr Aelod wedi anfon e-bost a oedd yn ffeithiol anghywir yn cwyno am yr achwynydd at ei gyflogwr. Tynnodd yr Aelod ei gŵyn yn ôl pan gafodd wybod am yr anghywirdebau.<br><br>Nid oedd yn ymddangos bod ymddygiad cyffredinol yr Aelod yn | COD – Dim angen gweithredu | Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda throthwy uchel.<br><br>Oherwydd nad oedd yr unigolyn dan sylw yn parhau fel aelod o'r cyngor cymuned, penderfynodd OGCC nad oedd angen gweithredu ynghylch y torriadau a wnaethpwyd o'r Cod gan yr Aelod. Mae'n ymddangos yn debygol y byddai OGCC wedi dilyn trywydd gwahanol petai'r unigolyn yn parhau i fod yn gynghorydd cymuned.<br><br>Argymhellodd OGCC y dylid trefnu hyfforddiant i weddill aelodau'r Cyngor ar y cod ymddygiad oherwydd ei bod yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | hunain neu unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain neu i unrhyw berson arall<br><br>- 14(1)(ch) – rhaid peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes lle mae gan yr aelod ddiddordeb rhagfarnol | arwain at unrhyw oblygiadau ehangach i'r Cyngor ac felly nid oedd yn awgrymu torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod.<br>[paragraff 6(1)(a) - *rhaid i aelodau beidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod]*<br><br>Cymerodd yr OGCC i ystyriaeth fod yr Aelod wedi ymddiheuro ac wedi tynnu ei gŵyn yn ôl, a'i bod yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu o fewn y Cyngor yn ei gyfanrwydd. At hynny, gan na safodd yr Aelod mewn etholiad ym mis Mai 2022, ac nad oedd bellach yn Aelod o unrhyw Gyngor, penderfynodd yr OGCC nad oedd cyfeirio ei hadroddiad at Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro i'w ystyried er budd y cyhoedd. Pe bai'r Aelod wedi sefyll mewn etholiad a/neu wedi'i ail-ethol yna mae'n debygol y byddai camau pellach wedi'u hystyried.<br>Yn wyneb y materion sydd wedi codi yn yr achos hwn, argymhellodd yr OGCC y dylid trefnu hyfforddiant i Aelodau'r Cyngor mewn perthynas â buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu a'u rhwymedigaethau o dan y Cod. | | ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu o fewn y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae OGCC yn annog hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7.<br><br>Cyngor Cymuned Llanfaches<br><br>Cyfeirnod Achos 202005979 | 01/07/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn bod cyn Aelod o Gyngor Cymuned Llanfaches wedi torri'r Cod Ymddygiad ynghylch materion yn ymwneud â gwaith a wnaed gan lawfeddyg coed, ymddygiad bygythiol a datgelu gwybodaeth gyfrinachol. | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 4(b) – rhaid dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>- 4(c) – rhaid peidio ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson.<br><br>- 5(a) - rhaid peidio datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.<br><br>- 7(a) – rhaid, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â | Canfu'r OGCC, pan aeth y cyn Aelod i gae chwarae cyhoeddus a chanfod meddyg coed wrth ei waith heb fariau digonol i sicrhau diogelwch y cyhoedd, mynegodd y cyn Aelod bryder ynghylch diogelwch y cyhoedd a'r gwaith a gynhaliwyd ar dir ar brydles gan y Cyngor Cymuned. Canfu'r OGCC nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ymddygiad y cyn Aelod yn amhriodol neu'n ymosodol, neu fod iaith ddifrïol neu sarhaus neu ymddygiad bygythiol wedi'i ddefnyddio gan dorri'r Cod.<br><br>Canfu'r OGCC hefyd fod hanes y sgwrs rhwng y cyn Aelod a'r achwynydd ynghylch datgelu gwybodaeth yn amrywio a chan nad oedd unrhyw dystion i'r digwyddiad, nid oedd yn bosibl dod i gasgliad ar yr hyn a ddywedwyd yn union. Ymhellach, roedd pwnc y wybodaeth a ddatgelwyd wedi'i drafod yn ogystal yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned ac wedi'i gofnodi mewn cofnodion a oedd ar gael i'r cyhoedd. Felly, ni chafodd yr OGCC ei berswadio bod yr ymddygiad honedig yn awgrymu torri'r Cod.<br><br>Yn ystod yr ymchwiliad, ni safodd y cyn Aelod yn yr etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022 ac ymddiswyddodd o'r Cyngor Cymuned. | CODE – Dim tystiolaeth o esgeulustod | Dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael yn y crynodeb achos. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddynt eu hunain neu unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain neu i unrhyw berson arall | Nododd yr OGCC fod y Cyngor Cymuned wedi cymryd camau ers y digwyddiadau i sicrhau, pan fydd gwaith awdurdodedig tebyg yn cael ei wneud, fod aelodau'n bresennol i sicrhau bod mesurau iechyd a diogelwch priodol yn eu lle i ddiogelu'r cyhoedd.<br><br>Canfu'r OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach er budd y cyhoedd. | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8.<br><br>Cyngor Cymuned Llanigon<br><br>Cyfeirnod Achos 202100842 | 01/07/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn bod Aelod o Gyngor Cymuned Llanigon wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy<br>• Ymddwyn mewn modd amharchus, ymosodol a hynod fygythiol tuag at yr achwynydd mewn cyfarfod y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2020.<br>• Bwlio a bygwth y Clerc.<br>• Gwahaniaethu yn erbyn Aelodau benywaidd trwy beidio â'u cynnwys mewn gohebiaeth a thrafodaethau.<br>• Methu ag ymgynghori â'r Cyngor llawn wrth wneud penderfyniadau.<br>• Methu â thrafod cyflog y Clerc.<br>• Methu â chynnal cyfarfodydd rhithwir y Cyngor yn ystod pandemig COVID-19.<br>• Gohirio sefydlu gwefan i'r Cyngor ac yn hwyrach, | Atebolrwydd a bod yn agored.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 4(b) – rhaid dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>- 4(c) – rhaid peidio ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson.<br><br>- 5(a) - rhaid peidio datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.<br><br>- 7(a) – rhaid, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â | Cafwyd cyfrifon tystion gan holl aelodau'r Cyngor, y Clerc, a Chynghorydd Sir. Adolygwyd hefyd y dogfennau a ddarparwyd gan y Clerc a Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys.<br>Ni chafodd yr Aelod ei ailethol yn etholiadau Mai 2022 ac roedd y dystiolaeth yn anghyson. Nid oedd yr OGCC o'r farn bod cymryd camau ymchwiliol pellach er budd y cyhoedd. Penderfynodd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | COD – Dim angen gweithredu | Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel.<br><br>Oherwydd nad oedd yr unigolyn yn parhau fel aelod o'r cyngor cymuned, penderfynodd OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ynghylch y torriadau hyn o'r Cod gan yr Aelod. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn y crynodeb achos yn gyfyngedig ond mae'n bosib, petai'r unigolyn yn parhau i fod yn gynghorydd cymuned, y byddai OGCC wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd wahanol. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | creu un ei hun, nad oedd yn hygyrch i'r cyhoedd, ac am ba un yr hawliai ffi oddi wrth y Cyngor am ei gynnal.<br>• Gwrthod darparu derbynebau wrth hawlio treuliau. | defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddynt eu hunain neu unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain neu i unrhyw berson arall<br>- 9(a) – rhaid parchu'r gyfraith a rheolau eu hawdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'u dyletswyddau fel aelod. | | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9.**<br><br>Cyngor Cymuned Sili a Larnog<br><br>Cyfeirnod Achos 202104219 | 04/07/2022 | Cwynodd un o weithwyr Cyngor Cymuned Sili a Larnog fod cyn Aelod wedi defnyddio iaith bwlio ac amharchus tuag ato yn ystod sgwrs ffôn ym mis Medi 2021.<br><br>Cwynodd y cyflogai am ymddygiad y cyn Aelod i'r Heddlu a'r OGCC ar ddiwrnod y sgwrs ffôn. Ymddiswyddodd y cyn Aelod o'r Cyngor ar yr un diwrnod. Gwadodd y cyn Aelod yr honiadau i'r Heddlu, ac ni chymerodd yr Heddlu unrhyw gamau pellach. | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 4(b) – rhaid dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>- 4(c) – rhaid peidio ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson.<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Gwrthododd y cyn Aelod gael ei gyfweld ac nid oedd yn dymuno cymryd rhan yn ymchwiliad yr OGCC. Fodd bynnag, cadarnhaodd y cyn Aelod fod sgwrs ffôn wedi'i chynnal ond dywedodd nad oedd y Cod yn berthnasol ar y pryd gan ei fod wedi ymddiswyddo o'r Cyngor.<br><br>Daeth yr OGCC i benderfyniad ar yr ymchwiliad ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael. Daeth i'r casgliad, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod y cyn Aelod yn Aelod ar adeg yr alwad ffôn a'i fod wedi cyfeirio iaith sarhaus tuag at y gweithiwr y gellid ei hystyried yn amharchus ac yn fwlio.<br><br>Daeth yr OGCC i gasgliad bod ymddygiad y cyn Aelod yn awgrymu torri paragraffau 4(b), 4(c), a 6(1)(a) o'r Cod. Fodd bynnag, gan fod y cyn Aelod wedi ymddiswyddo o'r Cyngor ac nad oedd wedi'i ethol i unrhyw Gyngor yn etholiadau mis Mai 2022, nid oedd yr OGCC o'r farn bod cymryd unrhyw gamau pellach er budd y cyhoedd. | COD – Dim angen gweithredu | Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel.<br><br>Oherwydd nad oedd yr unigolyn yn parhau fel aelod o'r cyngor cymuned, penderfynodd OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ynghylch y torriadau hyn o'r Cod gan yr Aelod. Ar y sail fod y crynodeb achos yn dweud "bod ymddygiad y Cyn Aelod yn awgrymu torri ... y Cod", mae'n ymddangos yn debygol y byddai OGCC wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd wahanol petai'r unigolyn yn parhau i fod yn gynghorydd cymuned. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **10.**<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br><br>Cyfeirnod Achos 202200667 | 12/07/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn gan Swyddog o Gyngor Bwrdeistref Siriol Merthyr Tudful, fod Aelod o'r Cyngor wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor. Honnwyd bod yr Aelod, yn ystod yr ymgyrch etholiadol ddiweddar, wedi tynnu taflen wleidyddol o flwch llythyrau aelod o'r cyhoedd, wedi rhoi ei daflen ei hun yn ei lle, ac wedi mynd â'r eitem a dynnwyd oddi yno. Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd ymddygiad honedig yr Aelod wedi dwyn anfri ar yr Aelod a'r Cyngor. | Dyletswydd i gynnal y gyfraith.<br><br>Ystyried torriad o baragraff:<br><br>6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Cafodd yr OGCC wybodaeth gan Swyddog Monitro'r Cyngor, gan gynnwys lluniau fideo o'r digwyddiad. Cadarnhaodd y Cyngor, er bod y mater wedi'i adrodd i'r Comisiwn Etholiadol a'r Heddlu, sefydlwyd nad oedd y mater yn drosedd etholiadol neu'n drosedd Post Brenhinol ac roedd y ddau gorff wedi gwrthod cymryd unrhyw gamau pellach.<br><br>O ganlyniad, nid oedd yr OGCC yn fodlon bellach fod ymchwilio i'r gŵyn er budd y cyhoedd, a phenderfynwyd terfynu'r ymchwiliad. | COD – Rhoddwyd y gorau i ymchwilio | Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel. Er fod OGCC wedi ystyried ei bod yn addas ymchwilio'r mater yn y lle cyntaf, mae OGCC yn parhau i adolygu prawf budd y cyhoedd tra'n cynnal ei ymchwiliadau ac ar y pwynt hwn mae OGCC wedi penderfynu rhoi'r gorau i ymchwilio yn y mater hwn. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **11.**<br><br>Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Cyfeirnod Achos 202102372 | 19/07/2022 | Honnwyd bod Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol ar Facebook pan rannodd wybodaeth am drafodaeth a gynhaliwyd mewn sesiwn cyngor preifat ac y gallai hyn fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad. Yn ystod yr ymchwiliad, ystyriwyd gwybodaeth gan y Cyngor Cymuned, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd. Cyfwelwyd â thystion hefyd. | Uniondeb.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 5(a) - rhaid peidio datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn modd allai yn rhesymol gael ei ystyried fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar eu rol neu eu hawdurdod.<br><br>- 7(a) – rhaid, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddynt eu hunain neu unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain neu i unrhyw berson arall | Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi postio sylw ar ei chyfrif Facebook personol. Roedd cynnwys y sylwadau yn ymwneud â materion y Cyngor a'i rôl o fewn y Cyngor. Roedd yr OGCC o'r farn bod yr Aelod wedi rhoi'r argraff ei bod yn dibynnu ar ei statws fel aelod ac felly bod y Cod Ymddygiad yn chwarae rhan lawn mewn perthynas â'r sylw.<br><br>Canfu'r OGCC fod trafodaethau'r cyfarfod a chofnodion y cyfarfod yn gyfrinachol. Fodd bynnag, canfu'r OGCC, yn ystod cyfarfod y Cyngor llawn a gynhaliwyd, rhannwyd rhywfaint o wybodaeth yn ystod elfen gyhoeddus y cyfarfod a'i bod wedi'i dogfennu yng nghofnodion y cyfarfod a rannwyd yn gyhoeddus. Felly, nid oedd yr OGCC o'r farn bod tystiolaeth yn awgrymu bod paragraffau 6(1)(a) a 7(a) y Cod Ymddygiad wedi'u torri. Roedd yr OGCC yn fodlon, o ystyried y wybodaeth a oedd ar gael yn gyhoeddus, mai cyfyngedig oedd effaith sylwedd y sylw a oedd yn cael ei rannu. Canfu'r OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | COD – Dim angen gweithredu | Ni ddylai aelodau ddibynnu ar yr achos hwn fel ffordd o amddiffyn datgelu gwybodaeth gyfrinachol sydd wedi ei dderbyn yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Cyngor.<br><br>Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **12.**<br><br>Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Cyfeirnod Achos 202106365 | 03/09/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn wedi'i hunangyfeirio gan Aelod o Gyngor Sir Ceredigion, ei fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer aelodau.<br><br>Dywedodd yr Aelod, yn ystod trafodaeth mewn cyfarfod cyhoeddus y Cyngor am ddarpariaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ("WAST") yng Ngheredigion, ei fod wedi gwneud sylwadau amhriodol am "fewnfudwyr" i'r sir a "mewnfudwyr" yn cael eu caniatáu i mewn i Gymru gan Lywodraeth Cymru a'r effaith posib ar y gwasanaethau hynny. | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.<br><br>Ystyried torriadau o baragraffau:<br><br>- 4(a) – rhaid cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd<br><br>- 4(b) – rhaid dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor gan gynnwys trawsgrifiad o'r hyn a ddywedodd yr Aelod yn y cyfarfod, cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, a sylwadau gan y Cyn Aelod.<br><br>Canfu'r OGCC fod y Cyn Aelod wedi rhoi'r gorau i'w blaid wleidyddol i eistedd fel aelod annibynnol yn dilyn y digwyddiad.<br><br>Yn ystod yr ymchwiliad, safodd y Cyn Aelod yn yr etholiad ar 5 Mai 2022 ac ni chafodd ei ethol gan yr etholwyr lleol.<br><br>Mewn sylwadau i'r Cyngor a'r OGCC, derbyniodd yr Aelod y bu'r sylwadau yn amhriodol a'u bod wedi'u cymryd mewn ffordd nas bwriadwyd. Canfu'r OGCC nad oedd sylwadau'r Aelod yn sylwadau di-alw-amdanynt, yn sylwadau personol, neu'n iaith casineb ac na fyddent wedi cael eu dehongli i gynrychioli safbwyntiau'r Cyngor. Fel y cyfryw, ni fyddent yn gyfystyr â thorri paragraffau 4(a) neu 6(1)(a) y Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, penderfynodd yr OGCC y gallent gael eu hystyried yn ymrannol ac yn amharchus, ac yn awgrymu toriad o baragraff 4(b) drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill.<br><br>Roedd yr OGCC o'r farn, gan mai yn y pen draw, etholwyr lleol oedd yn penderfynu ar rôl y Cyn Aelod a gan | Cod – Dim angen gweithredu | Mae'r achos yn dangos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam a bod yr elfen "budd cyhoeddus" (yr ail gam) gyda trothwy uchel. Oherwydd nad oedd yr unigolyn yn parhau fel aelod o'r cyngor sir, penderfynodd OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ynghylch y torriadau hyn o'r Cod gan yr Aelod. Ar y sail fod y crynodeb achos yn dweud y gallai'r sylwadau "gael eu hystyried yn ymrannol ac yn amharchus" ac yn "gyfystyr â thorri" y Cod, mae'n ymddangos yn debygol y byddai OGCC wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd wahanol petai'r unigolyn yn parhau i fod yn gynghorydd sir. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | nad oedd bellach yn aelod o'r Cyngor, y byddai unrhyw sancsiwn y gellid ei roi pe bai Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn canfod achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn gyfyngedig. Felly nid oedd er budd y cyhoedd i gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater. Canfu'r OGCC nad oedd angen cymryd unrhyw gamau o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r gŵyn | Darpariaeth perthnasol y Cod | Crynodeb o'r penderfyniad | Math o adroddiad | Pwyntiau dysgu i aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **13.**<br><br>Cyngor Tref Llanymddyfri<br><br>Cyfeirnod Achos 202100012 | 27/10/2022 | Derbyniodd yr OGCC gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref Llanymddyfri wedi torri'r Cod Ymddygiad. Roedd yr Aelod wedi'i chael yn euog o yrru dan ddylanwad cyffuriau ac roedd wedi'i adrodd mewn papur newydd nad oedd yn bwriadu ymddiswyddo fel Maer | Dyletswydd i gynnal y gyfraith.<br><br>Ystyried torriad o baragraff:<br><br>- 6(1)(a) – rhaid peidio ymddwyn mewn ffordd gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. | Ystyriodd yr OGCC euogfarn yr Aelod a'r ffaith nad oedd ei dedfryd yn gyfystyr â gwaharddiad awtomatig fel yr amlinellwyd yn Adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Hefyd, ystyriodd yr OGCC y cyfrif a gafwyd gan yr Aelod.<br><br>Ystyriodd yr OGCC a oedd angen cymryd camau pellach er budd y cyhoedd, ynghyd â diben hollbwysig y gyfundrefn safonau moesegol yng Nghymru, sef cynnal safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chynnal hyder mewn democratiaeth leol. Roedd yr OGCC o'r farn y gellid ystyried euogfarn yr Aelod a'r sylw dilynol yn y wasg a oedd yn cyfeirio at y Cyngor, aelodaeth yr Aelod o'r Cyngor a'i swydd fel Maer, yn ymddygiad a allai ddwyn anfri ar ei Chyngor a/neu ei swydd fel cynghorydd ac yn ymddygiad a oedd yn awgrymu torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Sir Gâr i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau. Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod yr aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. Yn unol â hynny, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylid atal yr Aelod am 2 fis a bod yn ofynnol iddi fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad o fewn 6 mis. | COD – Cyfeirwyd at Bwyllgor Safonau | Gellir gweld Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau pan ystyriwyd y mater hwn mewn Gwrandawiad ar wefan Cyngor Sir Gâr ar y ddolen hon.<br><br>Ystyriwyd fod y torriad o'r Cod gan y Cynghorydd yn ddifrifol. Ond oherwydd nad oedd bellach yn gwasanaethu fel Cynghorydd, roedd yr opsiynnau cosbi oedd ar gael i'r Pwyllgor Safonau wedi eu cyfyngu. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2022)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod;

   ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan PDC.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

APW/0010/2021-022/CT: Cyn Gynghorydd Gordon Lewis : 10 Mehefin 2022
APW/009/2021-022/AT: Cyn Gynghorydd Caryl Vaughan : 24 Mehefin 2022
APW/008/2021-022/CT – Cyn Gynghorydd Paul Dowson : 22 Awst 2022

**2.2 Apeliadau a benderfynwyd**

Dim yn ystod y cyfnod hwn.

**3. ARGYMHELLIAD**

Nodi cynnwys y crynodebau o'r achosion.

# Crynodeb o Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru – rhwng Mehefin 2022 a Thachwedd 2022

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| **1.**<br><br>Cyn Gynghorydd Gordon Lewis<br><br>Cyngor Tref Pencoed<br><br>APW/010/2021-022/CT | Honiad fod y Cynghorydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Gyngor Tref Pencoed:<br><br>Mae paragraff 6(1)(a) yn nodi bod rhaid i Aelod; - *"beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod*"<br><br>Honwyd fod y Cynghorydd wedi camarwain y Cyngor Tref ynghylch ei gymhwysedd i fod yn Gynghorydd a bod ei anonestrwydd, wrth lofnodi'r datganiad derbyn swydd ac yn ystod y flwyddyn ac 8 mis y bu'n Gynghorydd, yn gamddefnydd difrifol o'i swydd.<br><br>Ni wnaeth yr Ymatebydd gymryd rhan yn ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac ni wnaeth egluro ei weithredoedd na dangos unrhyw edifeirwch.<br><br>Cefndir:<br>Cafwyd y Cynghorydd yn euog o dair trosedd (affräe a dau achos o ymosod cyffredin) ym mis Gorffennaf 2015. Fe'i dedfrydwyd i gyfanswm o 16 mis yn y carchar, wedi'i ohirio am 24 mis.<br><br>Mae Rhan 1 o Ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol yn manylu ar ofynion paragraff 80(1)(d) Deddf Llywodraeth Leol 1972: "*Ni allwch fod yn ymgeisydd os ydych, ar adeg eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio wedi eich dedfrydu i gyfnod o* | ***Mater Cyfreithiol Rhagarweiniol:***<br><br>*Pa un a yw'r unigolion sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad i Aelodau serch hynny.*<br><br>Ar ôl ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol a chyfraith achosion, penderfynodd y Tribiwnlys Achos fod unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad i Aelodau serch hynny, os ydynt yn parhau i weithredu.<br><br>Yn yr achos hwn, etholwyd y Cynghorydd Lewis fel Aelod a pharhaodd i fod yn Aelod yn ystyr cyffredinol y Cod tan y dyddiad pan ymddiswyddodd, er gwaethaf ei fod wedi ei anghymhwyso rhag cael ei ethol (ond nid o reidrwydd rhag gweithredu fel Aelod, yn unol â'r gyfraith achosion).<br><br>*Casgliad:* canfu'r Tribiwnlys Achos fod yr Ymatebydd yn ddarostyngedig i'r Cod o'r dyddiad pan gafodd ei ethol i ddyddiad ei ymddiswyddiad.<br><br>***Penderfyniad ar fethiant i gydymffurfio â'r Cod***<br><br>Nododd y Tribiwnlys Achos ei bod yn gwbl glir fod y Cynghorydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gyngor Tref Pencoed.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon fod y Cynghorydd wedi cael ei ethol ar gynsail ffug ac, yn yr un modd, roedd y llofnod ar ei ffurflen | Ar sail y Ffeithiau Perthnasol a'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, canfu'r Tribiwnlys Achos, trwy benderfyniad unfrydol, fod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â Pharagraff 6(1)(a) y Cod. Roedd o'r farn fod y Cynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ymddygiad sydd wedi dwyn anfri ar ei swydd ac ar Gyngor Tref Pencoed.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad **unfrydol** y dylai'r cyn Gynghorydd Lewis gael ei **anghymhwyso am gyfnod o 24 mis** rhag bod yn aelod o Gyngor Tref Pencoed a rhag dod yn aelod ohono yn y dyfodol, neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall oddi mewn i'r ystyr yn neddf Llywodraeth Leol 2000.<br><br>***Pwyntiau Dysgu:***<br>➔ Dengys yr achos hwn yr ystyrir bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i Aelodau hyd yn oed os ydynt wedi eu anghymhwyso rhag cael eu hethol fel y cyfryw yn y lle cyntaf.<br>➔ Mae cyfrifoldeb ar unigolion i ganfod a ydyw'n gymwys i ymgeisio i fod yn Gynghorydd, gan gynnwys ystyried a ydyw wedi'i anghymhwyso.<br>➔ Y gosb a roddwyd am dorri'r Cod yn yr achos hwn oedd anghymhwyso am ddwy flynedd – ystyrir mai anghymhwyso yw'r gosb fwyaf ddifrifol. Uchafswm y cyfnod anghymhwyso y gall PDC ei osod yw pum mlynedd.<br>➔ Rhoes PDC ystyriaeth i'r Canllaw ar Gosbau wrth ystyried pa gosb i'w gosod. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 24 | *garchar o dri mis neu fwy (gan gynnwys dedfryd a ohiriwyd), heb y dewis o ddirwy, yn ystod y bum mlynedd cyn y diwrnod pleidleisio."*<br><br>Roedd y Cynghorydd wedi derbyn dedfryd o garchar wedi'i ohirio, heb y dewis o dderbyn dirwy ac felly nid oedd yn gymwys i fod yn ymgeisydd ar gyfer yr etholiad Cyngor Tref ym mis Tachwedd 2018.<br><br>Er gwaethaf hyn, etholwyd y Cynghorydd yn aelod o'r Cyngor Tref ar 29 Tachwedd 2018.<br><br>Cyhoeddwyd erthygl mewn papur newydd cenedlaethol ar 25 Gorffennaf 2020, a oedd yn cyfeirio at euogfarn droseddol y Cynghorydd yn 2015. Nid oedd Cyngor Tref Pencoed yn ymwybodol o euogfarn droseddol y Cynghorydd hyd nes i'r stori ymddangos yn yr erthygl hon yn y wasg ym mis Gorffennaf 2020.<br><br>Ymddiswyddodd y Cynghorydd o'i rôl fel Aelod ar 31 Gorffennaf 2020.<br><br>Gwnaed cwyn i'r Heddlu fod yr Ymatebydd wedi methu â datgan euogfarn droseddol pan safodd yn yr etholiad. Ni chymerodd yr Heddlu unrhyw gamau pellach oherwydd diffyg tystiolaeth gan fod y caniatâd ar gyfer y papur enwebu wedi cael ei ddinistrio gan y Gwasanaeth Etholiadau. | Datganiad Derbyn Swydd, ei ymrwymiad i lynu at y Cod a'r ffaith ei fod wedi parhau yn y swydd wedi cael eu gwneud ar yr un cynsail ffug hefyd. Naill ai roedd yn gwybod fod y wybodaeth a gyflwynwyd ganddo yn gamarweiniol neu roedd yn ddi-hid o'r ffaith honno.<br><br>Rhoes y Tribiwnlys Achos ystyriaeth hefyd i'r mater yng ngoleuni egwyddorion Nolan, sydd yn sylfaen i'r Cod. Roedd yn fodlon fod disgwyliad i Aelodau weithredu gydag uniondeb, gweithredu'n unol ag ymddiriedaeth y cyhoedd ynddynt, arwain trwy esiampl a gweithredu i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn eu Hawdurdod. Roedd y ffaith fod yr Aelod wedi parhau i weithredu fel Aelod er ei fod wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol, yn mynd at galon ymddiriedaeth y cyhoedd mewn democratiaeth ac roedd yn tanseilio'r Cod a'r gyfundrefn safonau.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod yr achos o dorri'r cod yn un difrifol gan y gellid yn rhesymol ystyried yr ymddygiad fel ymddygiad a fyddai'n tanseilio o ddifrif hyder y cyhoedd yn y Cod a'r gyfundrefn safonau. Fel y cyfryw, roedd yn ystyried fod anghymwyso yn gosb briodol.<br><br>Nododd y Tribiwnlys Achos fod yr Aelod wedi bod yn y swydd am gyfnod hir o amser ac, yn ôl pob tebyg, fod penderfyniadau arwyddocaol wedi cael eu gwneud gan yr Awdurdod yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yn debygol fod yr Ymatebydd wedi cymryd rhan ac wedi pleidleisio ar faterion o'r fath a derbyn gwybodaeth sensitif yn ei rôl fel Aelod, er ei fod wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol. | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | Roedd Adran 80(1)(d) ar waith am reswm, fel bod unigolyn yn cael ei anghymhwyso am gyfnod sylweddol o amser os oeddent wedi eu cael yn euog o rai troseddau ac wedi cael eu dedfrydu. Trwy lofnodi ei Ddatganiad Derbyn Swydd er gwaethaf hynny a gweithredu fel Aelod am flwyddyn ac 8 mis, roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried fod hwn yn fater a oedd yn teilyngu cyfnod anghymhwyso sylweddol o dan y gyfundrefn safonau.<br><br>*Ffactorau Lliniarol:*<br>Gan nad oedd y Cyngor wedi ymgysylltu gyda'r Ombwdsmon na Phanel Dyfarnu Cymru (PDC), dywedodd y Tribiwnlys Achos nad oedd yn eglur beth oedd y ffactorau lliniarol y byddai'n dymuno i'r Tribiwnlys Achos eu hystyried, os oedd rhai o gwbl. Serch hynny, ystyriodd y Tribiwnlys Achos pa un a oedd unrhyw ffactorau perthnasol sy'n cael eu nodi yn y Canllawiau ar Gosbau. Nododd fod yr Ymatebydd wedi cydnabod i raddau ddifrifoldeb y mater gan iddo ymddiswyddo'n fuan ar ôl i'r wasg gyhoeddi'r stori, fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod yr unigolyn wedi dangos unrhyw fewnwelediad gwirioneddol ac nid oedd tystiolaeth fod yr unigolyn wedi ymddiheuro. Nodwyd hefyd fod diffyg trefniadau gwirio ar waith a oedd yn golygu na chafodd y mater ei nodi o'r cychwyn cyntaf.<br><br>*Ffactorau Gwaethygol*<br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod yr ymddygiad a arweiniodd at y gyfres hon o ddigwyddiadau naill ai'n fwriadol neu'n ddi-hid. Nododd hefyd y byddai elfen o fantais bersonol neu fantais wleidyddol ynghlwm ag ennill statws Aelod. Manteisiodd ar y statws hefyd am gyfnod sylweddol o amser. Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon fod hyn yn golygu | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | cam-drin safle o ymddiriedaeth. Nodwyd fod y Datganiad Derbyn Swydd a'r ymrwymiad i lynu at y Cod, yn ogystal â'r ffurflen etholiad, yn ddogfennau o bwys a dylid bod wedi eu cwblhau gyda gonestrwydd, uniondeb a chryn ofal. Roedd y ffurflen etholiad yn cynnwys datganiad swyddogol yr oedd angen i'r Cynghorydd ei ddarllen a'i lofnodi ac roedd yn amlwg fod oblygiadau ynghlwm ag o. Yn olaf, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y Cynghorydd wedi cydweithredu nac ymgysylltu mewn unrhyw ffordd gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon na phroses y Tribiwnlys. | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| **2.**<br><br>Cyn Gynghorydd Caryl Vaughan<br><br>Cyngor Cymuned Llansantffraed<br><br>APW/009/2021-022/AT<br><br>Tudalen 27 | Honiad bod y Cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion, paragraff 6(1)(a), trwy gyflawni trosedd yn ogystal â'i gweithredoedd cysylltiedig, tra ei bod yn dal swydd Cynghorydd, a honnwyd ei bod yn gyfrifol am greu cyhoeddusrwydd negyddol.<br><br>Mae paragraff 6(1)(a) yn datgan bod rhaid i Aelod;<br>- *"beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod"*<br><br><u>Cefndir:</u><br>Llofnododd y Cynghorydd ei datganiad derbyn swydd fel aelod o Gyngor Cymuned Llansantffraed ar 7 Mai 2019.<br><br>Tri diwrnod yn ddiweddarach, ar 10 Mai 2019, bu digwyddiad rhwng y Cynghorydd a Chontractwr y Cyngor (unigolyn preifat y cyfeirir ato fel "y Contractwr"), pan yrrodd y Cynghorydd ei char tuag at y Contractwr ar gyflymder, ar dir preifat, tra'r oedd y Contractwr yn cyflawni ei ddyletswyddau i'r Cyngor. Roedd y Cynghorydd yn gweithredu mewn capasiti preifat pan ddigwyddodd y digwyddiad. Tarodd ei char ddau blentyn yn ystod y digwyddiad; a dioddefodd o leiaf un ohonynt niwed corfforol.<br><br>Ymchwiliodd yr Heddlu i'r digwyddiad a pharhaodd y Cynghorydd yn ei rôl ar ôl y digwyddiad ac ar ôl pledio'n euog i'r drosedd. Cyhuddwyd y Cynghorydd o achosi niwed corfforol trwy yrru'n ddiofal | ***<u>Gan ystyried yr achos o dorri paragraff 6(1)(b):</u>***<br><br>Roedd y cyfeiriad gan OGCC i'r Tribiwnlys Achos yn cyfeirio at dorri paragraff 6(1)(b) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Mae paragraff 6(1)(b) yn dweud:<br>"*Rhaid i chi adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig)"*<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad unfrydol, yn dilyn sylwadau gan y Llywydd, fod y ddarpariaeth yn cyfeirio at adrodd am ymddygiad troseddol posib "aelod arall", ac os bwriadwyd i'r ddarpariaeth hon ddelio gydag aelodau yn adrodd am eu hymddygiad eu hunain, yna dylid datgan hynny'n ddiamwys. Felly, nid aeth ymlaen i ystyried achos o dorri'r paragraff hwn o'r Cod.<br><br>***<u>Rôl y Clerc:</u>***<br><br>Mae cofnod Penderfyniad y Tribiwnlys yn nodi fod y Cynghorydd wedi ceisio cyngor gan y Clerc, ac nid oedd wedi adrodd am ei hymddygiad ei hun i'r Swyddog Monitro na'r Ombwdsmon. Yn ogystal, nid oedd y cynghorwyr eraill wedi adrodd am drosedd bosib y Cynghorydd i'r Ombwdsmon ar ôl iddynt dderbyn cyngor gan y Clerc nad oedd yn cyfeirio o gwbl at y gofyniad o dan baragraff | Ar sail y ffeithiau a ganfuwyd, canfu'r Tribiwnlys Achos, drwy benderfyniad unfrydol, fod y Cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad Cyngor Cymuned Llansantffraed, yn arbennig mewn perthynas â pharagraff 6(1)(a). Canfu'r Tribiwnlys Achos fod gweithredoedd y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar swydd cynghorydd, ond nid ar y Cyngor ei hun.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos ac, yn arbennig, difrifoldeb yr achos o dorri'r Cod Ymddygiad a methiant parhaus y cyn Gynghorydd Vaughan i ymgysylltu gyda'r Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i benderfyniad **unfrydol** y dylai'r cyn Gynghorydd Vaughan gael ei **hanghymwyso am 12 mis** rhag bod yn aelod o Gyngor Cymuned Llansantffraed, na dod yn aelod ohono yn y dyfodol, neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall oddi mewn i'r ystyr yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.<br><br>Yn ogystal â'r gosb a roddwyd i'r Cynghorydd, gwnaeth y Tribiwnlys Achos ddau argymhelliad:<br>→ Bod holl gynghorwyr presennol Cyngor Cymuned Llansantffraed yn mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn cyfnod o dri mis o 27 Mehefin 2022 (i'w ddarparu gan y Swyddog Monitro, ei dirprwy, Un Llais Cymru, neu unrhyw ddarparwr priodol arall) er mwyn sicrhau eu bod yn deall y darpariaethau hyn, gan gynnwys paragraff 6(1)(b) [y ddyletswydd i adrodd];<br>→ Bod Cyngor Cymuned Llansantffraed yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Cyngor fynychu hyfforddiant o'r fath.<br><br>***<u>Pwyntiau Dysgu</u>****:*<br>➔ Mae aelodau'n cael eu hannog i dderbyn cyngor gan y Clerc ond, yn y pendraw, |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 28 | ac yn wyllt (*wanton and furious driving*) yn groes i Adran 35 Deddf Troseddau Corfforol 1861; plediodd yn euog i'r drosedd ar 14 Hydref 2020 a chafodd ei dedfrydu ar 9 Rhagfyr 2020 i 10 wythnos yn y carchar, wedi'i ohirio, a derbyniodd 8 pwynt ar ei thrwydded yrru; roedd rhaid iddi dalu gordal dioddefwr o £128.<br><br>Nid oedd y ddedfryd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer anghymwyso'n awtomatig o swydd cynghorydd (mae Adran 80A Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn dweud fod dedfryd o dri mis neu fwy yn anghymhwyso person rhag dal swydd cynghorydd).<br><br>Parhaodd y Cynghorydd yn ei rôl fel Cynghorydd ar ôl iddi gael ei dedfrydu ac ymddiswyddodd o'r Cyngor ar 22 Rhagfyr 2020 yn dilyn adroddiadau negyddol yn y cyfryngau am y digwyddiad a'i heuogfarn. | 6(1)(b) o'r Cod.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad - Ei bod yn amlwg nad oedd y Clerc wedi hysbysu aelodau'r Cyngor am eu rhwymedigaeth i adrodd am ymddygiad troseddol posib aelod arall o dan baragraff 6(1)(b) y Cod, hyd yn oed ar ôl i'r Cynghorydd Vaughan bledio'n euog. Nid oes esboniad o gwbl am y methiant hwn, ond nid cyfrifoldeb y cyn Gynghorydd Vaughan yw rhoi cyngor o'r fath. Canfu'r Tribiwnlys hefyd fod y Clerc a'r cyn Gynghorydd Vaughan yn ymwybodol erbyn mis Rhagfyr 2020 fod ei hymddygiad troseddol yn debygol o fod wedi torri'r Cod. Gan fod y cyn Gynghorydd Vaughan wedi pledio'n euog, mae'n debygol fod y cyn Gynghorydd Vaughan yn gwybod, neu y dylai fod yn gwybod yn llawer cynharach fod cwestiynau'n codi am effaith ei hymddygiad ar p'un ai oedd hi wedi torri'r Cod Ymddygiad. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod y Clerc yn gwybod ei bod wedi pledio'n euog, ond mae ei ddatganiad yn dweud ei fod yn gwybod ei bod yn bwriadu pledio'n euog pan drefnwyd dyddiad yr ymddangosiad cyntaf yn y llys. Nododd y Tribiwnlys nad oedd y cyn Gynghorydd Vaughan yn gyfrifol am y cyngor a dderbyniodd hi na'r cynghorwyr eraill gan y Clerc. Fodd bynnag, ni all aelodau ddirprwyo'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r Cod i berson arall, gan gynnwys y clerc. Barn y Tribiwnlys oedd bod y cyngor a roddwyd yn taflu rhywfaint o oleuni ar pam y parhaodd y cyn Gynghorydd Vaughan yn y swydd a pham na chyfeiriwyd y mater i'r Ombwdsmon, neu pam na wnaed cwyn i'r Ombwdsmon yn gynharach, naill ai ganddi hi neu aelodau'r Cyngor.<br><br>***<u>Torri paragraff 6(1)(a) mewn perthynas â "dwyn anfri.... ar yr awdurdod"</u>*** | cyfrifoldeb pob aelod yw dilyn gofynion y Cod Ymddygiad.<br>➔ Mae angen i aelodau ystyried a ddylent gyfeirio eu hunain at yr Ombwdsmon mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ymddygiad.<br>➔ Y gosb a roddwyd yn yr achos hwn oedd anghymwyso am flwyddyn – ystyrir mai anghymhwyso yw'r gosb fwyaf difrifol. Uchafswm y cyfnod anghymhwyso y gall PDC ei osod yw pum mlynedd.<br>➔ Rhoes PDC ystyriaeth i'r <u>Canllaw ar Gosbau</u> wrth ystyried pa gosb i'w gosod. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 29 | | Ystyriodd y Tribiwnlys Achos bedwar erthygl neu lythyrau i'r wasg mewn perthynas â'r mater o sylw negyddol yn y wasg. Canfu'r Tribiwnlys nad oedd yn gywir dweud fod y cyhoeddusrwydd negyddol ynglŷn â gweithred droseddol y Cynghorydd yn cyfeirio at ei swydd fel cynghorydd na'r Cyngor. Roedd yr unig gyfeiriad yn yr erthyglau at y Cyngor yn cyfeirio at y Contractwr a oedd yn gweithio ar ei ran. Yr unig eitem a oedd yn cyfeirio o gwbl at swydd cynghorydd neu weithredoedd y Cyngor oedd llythyr gan deulu a oedd ynghlwm â'r digwyddiad. Nid oedd y cyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd wedi dwyn anfri ar y Cyngor; yr hyn a barodd i'r Cyngor fod yn agored i feirniadaeth oedd ei ddiffyg gweithredu mewn perthynas â'r cyn Gynghorydd Vaughan a'r ffaith ei bod yn parhau i wasanaethu fel cynghorydd. Roedd y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau adrodd y mater i'r Ombwdsmon; nid oedd Clerc y Cyngor wedi rhoi'r cyngor hwn i aelodau.<br>Datganodd y Tribiwnlys Achos nad oedd y Cynghorydd yn gyfrifol am y methiannau hyn na'r cyhoeddusrwydd negyddol yn y llythyr ynghylch y Cyngor.<br><br>***<u>Torri paragraff 6(1)(a) mewn perthynas â "dwyn anfri... ar y swydd":</u>***<br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn fod y weithred, sef cynghorydd yn gyrru car at Gontractwr y cyngor ac achosi niwed corfforol i blant o ganlyniad i hynny, a oedd yn weithred droseddol yn ei rhinwedd ei hun, yn dwyn anfri ar swydd y cynghorydd. Roedd pa mor eang oedd y sylw yn y wasg a ph'un a oedd y wasg yn dweud wrth y darllenwyr pa swydd yr oedd y cyn Gynghorydd Vaughan yn ei dal yn amherthnasol i raddau. Roedd yr hyn a wnaeth | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | y cyn Gynghorydd Vaughan yn eithriadol ac yn gwbl anghyson â'r safon ymddygiad sy'n ofynnol gan ddeiliaid swydd o dan y Cod ac a ddisgwylir gan y cyhoedd. Roedd y cyhoedd yn arbennig yn debygol o ystyried fod ymddygiad digyfiawnhad a pheryglus o'r fath yn annerbyniol, yn enwedig gan mai contractwr y cyngor oedd y targed, a hwnnw'n cyflawni gwaith ar ran y cyngor yr oedd y cyn Gynghorydd Vaughan yn aelod ohono.<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn hefyd fod penderfyniad y cyn Gynghorydd Vaughan i barhau i wasanaethu fel cynghorydd ar ôl cyflawni trosedd o'r natur hwn ac ar ôl pledio'n euog i drosedd ddifrifol yn ymddygiad a oedd yn dwyn anfri ar swydd cynghorydd. Roedd yr yn anwybyddu egwyddorion Nolan ac egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth fod y cyn Gynghorydd Vaughan wedi ymddiswyddo, nid am ei bod yn teimlo unrhyw edifeirwch neu gywilydd, ond er mwyn osgoi ymchwiliad gan yr Ombwdsmon. Roedd tystiolaeth y Clerc yn dangos hyn. Mae'n debyg mai barn y cyhoedd am ymddygiad o'r fath fyddai nad oedd y cyn Gynghorydd Vaughan yn dangos unrhyw ystyriaeth na pharch tuag at egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys uniondeb, bod yn agored ac arweinyddiaeth.<br><br>Atgoffodd y Tribiwnlys ei hun hefyd am y cyngor a roddwyd gan Glerc y Cyngor. Anogir cynghorwyr i geisio cyngor gan y Clerc ac mae'r Clerc i fod i ddarparu cyngor neu gyfeirio cynghorwyr at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, er nad yw hyn yn golygu y gall cynghorydd ddirprwyo ei chyfrifoldeb ei hun i gydymffurfio â'r Cod i'r clerc. Serch hynny, ym | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | marn y Tribiwnlys, ar ôl i'r cyn Gynghorydd Vaughan benderfynu pledio'n euog i'r drosedd a derbyn ei heuogrwydd yn ffurfiol, roedd cyfrifoldeb arni i ystyried ei sefyllfa a ph'un a ddylai gyfeirio ei hun at yr Ombwdsmon. Ni arweiniodd ei heuogfarn a'i dedfryd at ei hymddiswyddiad. Roedd cyngor y Clerc iddi ymddiswyddo yn rhy hwyr a hynny dim ond ar ôl i gyhoeddusrwydd negyddol godi am y cyn Gynghorydd Vaughan ei hun. Roedd y cyngor hwnnw'n canolbwyntio ar yr hyn oedd orau i'r cyn Gynghorydd Vaughan, nid beth oedd orau i'r Cyngor neu'r angen i gynnal hyder mewn democratiaeth leol. Methodd y Clerc â mynd i'r afael a'r effaith y byddai cynghorydd a oedd yn parhau i wasanaethu ar ôl ei chael yn euog o drosedd, heb wneud cyfeiriad at yr Ombwdsmon, yn ei gael ar swydd cynghorydd ac ar y cyngor ei hun.<br><br>Mae'r cyngor a dderbyniodd y cyn Gynghorydd Vaughan gan y Clerc yn rhannol esbonio ei phenderfyniad i aros yn y swydd heb wneud cyfeiriad at yr Ombwdsmon, ond nid oedd hyn yn diddymu ei chyfrifoldeb yn llwyr. Roedd y Tribiwnlys yn ystyried bod y cyngor a roddwyd gan y Clerc yn ffactor lliniarol i'r cyn Gynghorydd Vaughan ond edrychwyd ar ei methiant i adlewyrchu ar ei hymddygiad ei hun a'r diffyg mewnwelediad i'w gweithred droseddol a'r effaith debygol ar swydd cynghorydd a'r Cyngor fel ffactor gwaethygol. Ym marn y Tribiwnlys, roedd ei hymddygiad a oedd yn sail i'r euogfarn droseddol yn "ymddygiad bwriadol neu ddi-hid heb boeni llawer, os o gwbl, am y Cod" (paragraff 42, isadran x ffactorau Gwaethygol, Canllaw ar Gosbau).<br><br>Ym marn y Tribiwnlys, roedd y ffaith bod y cyn | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | Gynghorydd Vaughan wedi ymddiswyddo, nid oherwydd iddi ddwyn anfri ar swydd cynghorydd neu am ei bod wedi ymddwyn mewn modd cwbl resynus tuag at y Contractwr, ond er mwyn osgoi ymchwiliad yr Ombwdsmon (fel y dangosa tystiolaeth y Clerc) hefyd yn ffactor gwaethygol. Yn ogystal, cyn belled ag yr oedd y Tribiwnlys yn ei wybod, nid oedd y contractwr na'r plant wedi derbyn ymddiheuriad, a dewisodd y cyn Gynghorydd Vaughan beidio â chydweithredu gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon na'r achos hwn. Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad nad oedd ymddygiad y cyn Gynghorydd Vaughan yn ei gyfanrwydd yn dangos unrhyw fewnwelediad i egwyddorion Nolan, nac unrhyw arwydd ohonynt, er gwaethaf iddi lofnodi datganiad y byddai'n "cyflawni'r dyletswyddau yn briodol ac yn ffyddlon yn ôl y gorau o'm crebwyll a'm gallu" ac y byddai'n cydymffurfio â'r Cod. | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| **3.**<br><br>Cyn Gynghorydd Paul Dowson<br><br>Cyngor Sir Benfro<br><br>APW/008/2021-022/CT | Gwnaed honiadau yn erbyn y Cynghorydd o dorri paragraffau 4(c) a 6(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor mewn tri chwyn.<br><br>Mae paragraff 5(c) yn datgan:<br>*Rhaid i chi beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson.*<br><br>Mae paragraff 6(1)(a) yn datgan<br>*"Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod."*<br><br><u>Y Gŵyn Gyntaf:</u><br>Roedd y gŵyn gyntaf, a wnaed gan aelod o'r cyhoedd o'r enw Mr Marc Davies, yn honni fod yr Ymatebydd wedi gwneud sylwadau mynych nad oeddent yn wir am gyd Aelod o Gyngor Sir Benfro, sef y Cynghorydd Joshua Beynon; ac am Mr Marc Davies ei hun.<br><br>(A) Yn 2020, honnwyd fod yr Ymatebydd wedi cyhuddo'r Cynghorydd Beynon ar gam, ac yn gyhoeddus, o rannu fideo pornograffig o ferch dan oed. Honnwyd hefyd fod gwneud honiad ffug o'r fath heb wirio ei fod yn wir yn dwyn anfri ar swydd yr Ymatebydd ac/neu'n dwyn anfri ar ei Awdurdod. Pan ailadroddodd yr Ymatebydd yr honiadau ffug hynny a gwneud ensyniadau yn eu cylch, roedd yn bwlio'r Cynghorydd Beynon. Mae'r bwlio hwn yn waeth oherwydd i'r Ymatebydd ddweud celwydd pan ddywedodd mai dim ond ailadrodd rhywbeth yr oedd y Cynghorydd | <u>Y Gŵyn Gyntaf:</u><br>Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y gŵyn gyntaf yn ymwneud â chwynion tebyg gan ddau berson gan fod y cyn Gynghorydd Dowson wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn y ddau achos i ddweud ar goedd fod y naill berson a'r llall wedi ymddwyn mewn modd troseddol.<br>- Ar ôl i Mr Marc Davies ddweud wrth y cyn Gyghorydd Dowson ym mis Medi 2020 nad oedd wedi cael ei ganfod yn euog o unrhyw drosedd, fel yr awgrymwyd yn flaenorol, roedd y cyn Gynghorydd Dowson wedi defnyddio *Twitter* wedi hynny i honni ar gam fod Mr Davies yn droseddwr treisgar a oedd wedi torri amodau parôl. Gwnaeth honiadau tebyg yn ystod ymchwiliad OGCC.<br>- Yn achos y Cynghorydd Beynon, roedd y cyn Gynghorydd Dowson wedi gwneud honiadau'n ymwneud ag ymddygiad troseddol difrifol yn erbyn y Cynghorydd Beynon, sef ei fod wedi cyhoeddi delweddau anweddus troseddol.<br>Nid oedd yr un o'r ddau honiad yn wir.<br><br>Yn achos Mr Marc Davies, barn y Tribiwnlys Achos oedd nad oedd y cyn Gynghorydd Dowson yn poeni a oedd yr hyn a ddywedodd yn wir ai peidio ac, ar y gorau, ni chymerodd unrhyw gamau i ganfod y gwir hyd nes i Mr Marc Davies wneud cwyn ac i'r Ymatebydd ddod yn ymwybodol y byddai'n rhaid iddo ateb y gŵyn.<br>Yn achos y Cynghorydd Beynon, barn y Tribiwnlys Achos oedd bod y cyn Gynghorydd Dowson wedi dibynnu ar gredadwyedd ei fersiwn anwir o'r sgwrs a gafodd gyda'r Cynghorydd Beynon, gan wybod nad oedd yn | Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn **unfrydol** y dylai'r cyn Gynghorydd Dowson gael ei **anghymhwyso am dair blynedd** rhag bod yn aelod o Gyngor Sir Benfro, na dod yn aelod ohono, neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall oddi mewn i'r ystyr yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.<br><br><u>Ystyriaethau wrth benderfynu ar y gosb:</u><br>- Roedd OGCC wedi tynnu sylw'r Tribiwnlys Achos at adroddiad ar benderfyniad gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Benfro mewn gwrandawiad ar 9 Mehefin 2022, pan roddwyd cerydd i'r cyn Gynghorydd Dowson am ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad a darpariaethau eraill. Ni chafodd y cyn Gynghorydd Dowson ei ailethol i'r swydd ym mis Mai 2022, felly pan gynhaliwyd y gwrandawiad hwnnw gan y Pwyllgor Safonau y gosb a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau oedd y gosb fwyaf oedd ar gael. Nododd y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r mater hwnnw, pe byddai'r cyn Gynghorydd Dowson wedi cael ei ailethol yna roedd yn debygol iawn y byddai wedi cael ei wahardd o'r swydd.<br>- Gan nad oedd y cyn Gynghorydd Dowson yn aelod etholedig o'r Cyngor mwyach, roedd gan y Tribiwnlys Achos ddau ddewis:<br>  - naill ai peidio â chymryd unrhyw gamau, neu<br>  - cytuno ar gyfnod anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gyngor Sir Benfro, na dod yn aelod ohono, neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall oddi mewn i'r ystyr yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.<br>Roedd OGCC yn derbyn nad oedd diffyg cosb arall yn golygu y dylai'r Tribiwnlys anghymhwyso'r cyn Gynghorydd dim ond am nad oedd dewis arall; ac y dylid defnyddio'r |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
| --- | --- | --- | --- |
| Tudalen 34 | Beynon wedi'i ddweud wrtho yr oedd o.<br><br>(B) Rhwng mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021, honnwyd fod yr Ymatebydd wedi cyhuddo Mr Marc Davies ar gam ac yn gyhoeddus o fod yn gyn-droseddwr, rhywbeth a oedd, unwaith eto, yn ffeithiol anghywir.<br>Heriodd Mr Marc Davies yr Ymatebydd ym mis Medi 2020 a dywedodd wrtho ei fod yn anghywir. Serch hynny, ailadroddodd yr Ymatebydd yr honiadau yn erbyn Mr Marc Davies rhwng mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021, pan fu iddo ymddiheuro a derbyn nad oedd yr honiadau'n wir.<br>Roedd dweud pethau o'r fath drosodd a throsodd am Mr Marc Davies, heb gymryd camau rhesymol i gadarnhau fod y wybodaeth yr oedd yn ei rhannu yn gywir ar ôl iddo gael gwybod nad oedd yn gywir, gyfystyr ag aflonyddu ac roedd yn dwyn anfri ar swydd yr Ymatebydd fel Aelod a/neu'n dwyn anfri ar ei Awdurdod.<br><br>Yr Ail Gŵyn:<br>Roedd yr ail gŵyn, a wnaed gan aelod o'r cyhoedd, Mrs Elaine Wyatt, yn honni fod yr Ymatebydd, ar 17 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny, wedi camarwain pobol pan gyhoeddodd neges ar-lein yn dweud mai nod cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Llywodraeth Cymru yw dysgu plant 3 oed am fastyrbiad; a dysgu bechgyn a genethod | wir. Ychwanegodd ragor o gelwyddau at y celwydd hwnnw, unwaith eto er mwyn cryfhau ei gredadwyedd a chreu anawsterau i gyd-aelod etholedig.<br>Roedd gwneud honiadau difrifol ffug o'r fath yn erbyn aelod o'r cyhoedd ar yr un llaw, a chyd-aelod etholedig ar y llaw arall, yn dwyn anfri nid yn unig ar swydd y cyn Gynghorydd Dowson ond roedd yn dwyn anfri ar y Cyngor ei hun hefyd.<br><br>Yn y ddau achos, roedd ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson gyfystyr â bwlio yn erbyn y Cynghorydd Beynon ac aflonyddu yn erbyn Mr Marc Davies, oherwydd bod yr ymddygiad wedi cael ei ailadrodd yn y ddau achos. Roedd OGCC wedi nodi y gellir disgrifio bwlio fel ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus, difrïol neu sarhaus; a bod ymddygiad sy'n bwlio yn ceisio tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion, ac mae'n niweidio eu hyder a'u gallu, a gallai gael effaith andwyol ar eu hiechyd. Canfu'r Tribiwnlys Achos fod ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson tuag at y Cynghorydd Beynon yn ddiamheuol yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn.<br><br>Yn yr un modd, roedd sylwadau a gyflwynwyd gan OGCC, ac a dderbyniwyd gan y Tribiwnlys Achos, yn nodi fod aflonyddu yn ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd ac sy'n gofidio neu'n cythruddo pobl. Canfu'r Tribiwnlys Achos fod ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson tuag at Mr Marc Davies yn ddiamheuol yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn.<br><br>Nid yw ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson tuag at Mr Marc Davies a'r Cynghorydd Beynon yn dod o fewn cwmpas rhyddid mynegiant sy'n cael ei warchod gan Erthygl 10 y Confensiwn. | gosb hon dim ond os oedd cyfiawnhad dros wneud hynny. O ystyried canlyniadau a difrifoldeb yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad, cynigiodd OGCC nad oedd yn briodol peidio â chymryd unrhyw gamau a bod anghymhwyso yn briodol.<br>*Ffactorau Lliniaru:*<br>- roedd yn gynghorydd ers mis Mai 2017 felly roedd o wedi gwasanaethu am gyfnod cymharol fyr;<br>- ymddiheurodd i Mr Marc Davies ym mis Chwefror 2021;<br>- roedd o wedi cydweithredu â'r broses, er enghraifft, trwy gael ei gyfweld.<br>*Ffactorau Gwaethygol:*<br>Roedd rhaid i'r Tribiwnlys fod yn ofalus i beidio â chyfrif eilwaith fel ffactorau gwaethygol y ffactorau hynny a oedd wedi cael eu hystyried yn barod fel elfennau o'r achos a brofwyd.<br>- Natur ailadroddus yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad a'r canfyddiadau o ddwyn anfri.<br>- Diffyg dealltwriaeth o ganlyniadau'r camymddygiad ar eraill.<br>- Y ffaith nad oedd y cyn Gynghorydd Dowson wedi dangos fawr o bryder am y rhai hynny yr oedd wedi gwneud honiadau amdanynt.<br>- Y ffaith iddo geisio beio eraill am ei gamgymeriadau.<br>- Ceisiodd feio Mr Timothy Brentnall am gynhyrchu dogfennau ffug, yn hytrach na chyfaddef ei anonestrwydd ei hun.<br>- Ceisiodd feio'r Cynghorydd Beynon am ddweud wrtho'r hyn yr oedd wedi'i ailadrodd, er nad oedd unrhyw sgwrs o'r fath wedi digwydd.<br>- Roedd ei ymddygiad yn dangos ymddygiad bwriadus a difeddwl, heb fawr o ystyriaeth, os o gwbl, i'r Cod Ymddygiad. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 35 | 13 oed am ryw yr anws. Ailadroddodd y gamwybodaeth hon mewn e-bost at gyd Aelod o'r Cyngor a dywedodd fod cynlluniau gwersi ar gyfer plant 11 oed a hŷn yn cynnwys cyfeiriadau at *bondage*, rhyw yr anws, ffyrdiad had ar y wyneb a mwy. Nid oedd unrhyw sail i'r datganiadau hyn am y cwricwlwm a thrwy ddweud fod sail i'r datganiadau roedd yr Ymatebydd yn camarwain pobl yn fwriadol ac yn anonest er mwyn eu cynddeiriogi. Drwy wneud hynny, roedd wedi dwyn anfri ar ei swydd a/neu ei awdurdod.<br><br>Y Drydedd Gŵyn:<br>Roedd y drydedd gŵyn, a wnaed gan aelod o'r cyhoedd, Mr Timothy Brentnall, yn honni fod yr Ymatebydd, ar 12 Ebrill 2021, wedi cynnal trafodaeth chwyrn ar *Facebook* gyda Mr Brentnall, a oedd yn defnyddio'r enw "Timothy Stjohn" ar y pryd.<br><br>(A) Ar un pwynt yn y drafodaeth, roedd yr Ymatebydd wedi ymateb i Mr Brentnall fel a ganlyn, *"what a t**ser. I heard you are on the register but it's not been proven so I'm not spreading it around. Better man than you".* Honnir fod yr Ymatebydd, trwy wneud hynny, wedi awgrymu ar gam ac yn faleisus fod Mr Brentnall wedi'i gofrestru am ei fod yn droseddwr rhyw.<br><br>(B) Honnwyd hefyd fod tystiolaeth ar ffurf llun sgrîn a ddarparwyd gan yr Ymatebydd i ymchwiliad OGCC mewn perthynas â'r drydedd gŵyn | Roedd ei sylwadau amdanynt wedi eu cyfeirio at y naill a'r llall yn bersonol. Nid oeddent yn agweddau o "fynegiant gwleidyddol" a, pha un bynnag, nid yn unig yr oedd y sylwadau yn dramgwyddus, roeddent yn hynod dramgwyddus ac felly nid oeddent yn cael eu gwarchod gan Erthygl 10.<br><br>Yn yr un modd, mewn perthynas â'r gŵyn gyntaf, canfu'r Tribiwnlys Achos fod ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson, mewn perthynas â Mr Marc Davies a'r Cynghorydd Beynon, gyfystyr â **thorri paragraffau 6(1)(a) a 4(c) o'r Cod Ymddygiad.**<br><br>Yr Ail Gŵyn:<br>Canfu'r Tribiwnlys Achos fod yr achos hwn yn enghraifft arall o'r cyn Gynghorydd Dowson yn honni fod rhywbeth yn wir pan nad oedd sail i'r honiad, a hynny mewn safle o awdurdod ar bwnc a fyddai'n gallu achosi dychryn difrifol, ar gam, i'w etholwyr a'r cyhoedd. Roedd hynny'n dwyn anfri ar ei swydd a'r Cyngor, yn enwedig o edrych arno fel rhan o batrwm cyffredinol o ymddygiad cyffelyb ganddo.<br><br>Wrth ystyried unwaith eto pa un ai yw sylwadau'r cyn Gynghorydd Dowson yn dod o fewn cwmpas rhyddid mynegiant sy'n cael ei warchod gan Erthygl 10 y Confensiwn, roedd y Tribiwnlys Achos yn cytuno â sylwadau OGCC fod Erthygl 10 yn gwarchod yr hawl i wneud datganiadau anghywir os ydynt yn cael eu gwneud yn onest mewn cyd-destun gwleidyddol, ac nid yw'n gwarchod datganiadau y mae'r cyhoeddwr yn gwybod nad ydynt yn wir. Fel y cyfaddefodd y cyn Gynghorydd Dowson mewn cyfweliad, roedd yn gwybod nad oedd sail wirioneddol i'w honiadau am y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Roedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried nad oedd y canfyddiad ar wahân mwyaf diweddar yn erbyn y cyn Gynghorydd Dowson yn rhoi unrhyw glod iddo ond roedd yn ddigon gwahanol i'w roi i'r naill ochr.<br><br>***Pwyntiau Dysgu:***<br>➔ Y gosb a roddwyd yn yr achos hwn oedd anghymhwyso am dair blynedd – ystyrir mai anghymhwyso yw'r gosb fwyaf difrifol. Uchafswm y cyfnod anghymhwyso y gall y PDC ei osod yw pum mlynedd.<br>➔ Rhoes PDC ystyriaeth i'r Canllaw ar Gosbau wrth ystyried pa gosb i'w gosod<br>➔ Er yr ymddengys ar yr olwg gyntaf fod tebygrwydd rhwng yr achos cyfredol a'r gŵyn a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ychydig fisoedd yn gynharach, roedd y Tribiwnlys o'r farn ei bod yn ddigon gwahanol i'w roi i'r naill ochr. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 36 | wedi cael ei ffugio ac felly roedd gyfystyr ag ymgais fwriadol i gamarwain yr ymchwiliad. Roedd y neges wreiddiol a'r ymgais i gamarwain yr ymchwiliad, o'u hystyried ar wahân a gyda'i gilydd, yn dwyn anfri ar swydd yr Ymatebydd fel aelod ac ar yr Awdurdod. | arfaethedig.<br><br>Gan nad oedd sail i honiadau'r cyn Gynghorydd Dowson, canfu'r Tribiwnlys Achos fod ei sylwadau wedi'u bwriadu i greu sioc a dicter, yn hytrach na rhannu gwybodaeth onest gyda'r cyhoedd ac felly nid oeddent yn cael eu hamddiffyn gan Erthygl 10. Roeddent gyfystyr â chamwybodaeth fwriadol. Roedd y penderfyniad hwn gan y Tribiwnlys yn cael ei atgyfnerthu gan ei benderfyniad mewn perthynas â natur ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson tuag at y Cynghorydd Beynon, Mr Marc Davies a Mr Timothy Brentnall. Gellir edrych ar ei sylwadau ar y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o batrwm tebyg o ymddygiad.<br><br>Yn yr un modd, canfu'r Tribiwnlys Achos, mewn perthynas â'r ail gŵyn, fod ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson gyfystyr â **thorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.**<br><br><u>Y Drydedd Gŵyn:</u><br>Canfu'r Tribiwnlys Achos fod hyn yn enghraifft bellach o'r cyn Gynghorydd Dowson yn awgrymu fod aelod o'r cyhoedd yn gyfrifol am ymddygiad troseddol difrifol pan nad oedd ganddo sail dros wneud hynny. Roedd honni am ddim rheswm fod person wedi'i gofrestru fel troseddwr rhyw yn siŵr o ddwyn anfri ar y Cyngor a deilodd y swydd, oherwydd y posibilrwydd y byddai ymddygiad o'r fath yn arwain at golli hyder y cyhoedd. Unwaith eto, roedd ceisio cyfiawnhau'r ymddygiad hwnnw drwy gamarwain ymchwiliad a dibynnu ar ddogfen wedi'i ffugio yn sicr o ddwyn anfri ar ddeilydd y swydd a'r Cyngor.<br><br>Nid oedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried fod | |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r penderfyniad | Canfyddiadau |
| --- | --- | --- | --- |
| | | ymddygiad y cyn Gynghorydd Dowson tuag at Mr Timothy Brentnall yn dod o dan gwmpas rhyddid mynegiant sy'n cael ei warchod gan Erthygl 10 y Confensiwn. Cyfeiriwyd ei sylwadau at Mr Brentnall yn bersonol. Nid oeddent yn agweddau o "fyngegiant gwleidyddol" a pha un bynnag, nid yn unig yr oedd y sylwadau'n dramgwyddus, roeddent yn hynod dramgwyddus, ac felly nid oeddent yn cael eu gwarchod gan Erthygl 10.<br><br>Felly, canfu'r Tribiwnlys Achos **fod paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri** mewn perthynas â dwy agwedd y trydydd gŵyn. | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Monitro sampl o gyfarfodydd y Cyngor/cyfarfodydd Pwyllgor gan y Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyhoeddi manylion yr ymarfer a gynhaliwyd gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau i arsylwi sampl o gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'i Bwyllgorau a'r broses ar gyfer darparu adborth** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae rhai o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Safonau yn cynnwys cefnogi Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn i gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor.

Er bod y Cod yn berthnasol i Aelodau pryd bynnag y byddant yn cyflawni gwaith fel aelodau etholedig/cyfetholedig, mae ymddygiad mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Cyngor a chyfarfodydd pwyllgor yn ganolog i hyder y cyhoedd yn y Cyngor yn ei gyfanrwydd, a hyder y cyhoedd yn y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau yn arbennig.

Wrth drafod y datblygiadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2021, argymhellodd Richard Penn i gyfarfod cenedlaethol o'r Pwyllgor Safonau yng Nghymru fod adolygiadau'n cael eu datblygu a bod adolygiadau'n cael eu cynnal.

Yng ngoleuni'r materion hyn, roedd Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23 (a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 30/09/2022) yn cynnwys penderfyniad i gynnal adolygiad o ymddygiad mewn sampl o gyfarfodydd y Cyngor Sir a chyfarfodydd pwyllgor.

## 2. TREFNIADAU RHAGARWEINIOL

- ➔ Pwy fyddai'n cyflawni'r gwaith:

Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor Safonau gynnal ymarfer tebyg i hwn. Peilot ydoedd a oedd yn cynnwys dim ond pedwar aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, oherwydd fod gan y pumed aelod annibynnol o'r Pwyllgor ddiddordeb personol yn sgil natur cyflogaeth yr aelod tu allan i'w rôl ar y Cyngor. Ni chymerodd cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned a'r Cynghorwyr Sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau ran yn y broses.

➔ Pa gyfarfodydd?

Penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Safonau i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini.

Wrth benderfynu pa gyfarfodydd i fynychu, ystyriodd y Pwyllgor Safonau y canlynol:

- Barnwyd bod cyfarfodydd y Cyngor yn ganolog gan mai yma mae holl aelodau etholedig y Cyngor yn cyfarfod; mae aelodau'n cynnal trafodaethau gwleidyddol ac yn gwneud penderfyniadau. Byddai ymddygiad gwael yn niweidiol iawn mewn fforwm o'r fath.

- Roedd y Pwyllgor Safonau'n dymuno arsylwi Pwyllgor rheoleiddiol ac, ar y sail honno, ychwanegwyd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'r rhestr o gyfarfodydd i'w harsylwi.

- Dewiswyd y ddau Bwyllgor Sgriwtini oherwydd eu pwysigrwydd yn y broses gwneud penderfyniadau; mae pwyllgorau sgriwtini yn rhoi cyfle i aelodau eraill, yn enwedig o grwpiau gwleidyddol gwahanol, ddal y Pwyllgor Gwaith ac Uwch Swyddogion y Cyngor i gyfrif mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed a phenderfyniadau sydd i'w gwneud.

- Penderfynwyd na fyddai mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith yn ychwanegu gwerth gan fod y Pwyllgor Gwaith yn gorff statudol yn ei rinwedd ei hun, sy'n cael ei reoli gan yr Arweinydd, ac mae'n cael ei redeg yn wahanol iawn i Bwyllgorau eraill y Cyngor.

- Mae'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'n cael ei arsylwi'n rheolaidd gan reoleiddwyr allanol felly ystyriwyd y byddai'n anghymesur i'r Pwyllgor Safonau fynychu ac arsylwi'r cyfarfodydd hyn hefyd.

- Mae Cyfarfodydd eraill yn cyfarfod yn ôl y galw (yn gyffredinol) a theimlwyd y byddai adnoddau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol wrth ganolbwyntio ar y pedwar cyfarfod a nodir uchod.

Rhannwyd y trefniadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau hyn gyda'r pedwar Arweinydd Grŵp perthnasol ymlaen llaw, ac fe'u cymeradwywyd ganddynt.

## 3. Y BROSES

Gwnaed trefniadau i aelodau'r Pwyllgor Safonau fynychu'r cyfarfodydd hyn yn unol â'r tabl yn **Atodiad 1**. Roedd dau o'r pedwar aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd a drefnwyd.

Datblygwyd ffurflen safonol gan y Pwyllgor Safonau i gofnodi'r canfyddiadau wrth i'r aelodau fynychu'r cyfarfodydd fel sylwedyddion. Mae copi o dempled y Daflen Arfarnu wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

Roedd pob aelod o'r Pwyllgor Safonau'n llenwi Ffurflen Arfarnu yn y cyfarfodydd a fynychwyd ganddynt, neu'n fuan wedi hynny.

Yn syth ar ôl pob adolygiad, neu'n fuan wedyn, roedd aelodau perthnasol y Pwyllgor Safonau'n cyfarfod gyda Chadeirydd y Cyngor/Pwyllgor i ddarparu "adborth cyflym".

Yn dilyn y cyfarfod olaf a arsylwyd, cyfarfu'r pedwar aelod annibynnol i gytuno ar y prif bwyntiau yr oeddent yn dymuno eu rhannu gydag aelodau'r Cyngor ar ffurf sylwadau ac argymhellion. Mae llythyr adborth cyffredinol wedi ei rannu gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn ei drafod mewn cyfarfod ar 8 Rhagfyr 2022. Er mai bwriad y Pwyllgor Safonau oedd cyfyngu'r sylwadau i faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, roedd yn anorfod y byddai materion proses/llywodraethiant eraill yn dod i'r amlwg ac mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cynnwys rhai o'r sylwadau hynny yn y llythyr hefyd yn y gobaith y byddant yn cynorthwyo'r Cyngor a'i Aelodau wrth symud ymlaen.

## 4. SYLWADAU A GYFLWYNWYD

Dyma oedd sylwadau aelodau'r Pwyllgor Safonau:

- Roedd y Cadeiryddion wedi eu croesawu; ac roedd pob Cadeirydd wedi derbyn yr adborth yn gadarnhaol yn dilyn y cyfarfodydd.

- Roedd y Cadeiryddion yn deall rôl a swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

- Mae'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n cael eu rhedeg mewn modd rhagorol.

  Nodwyd fod y sgiliau cadeirio a ddangoswyd yn y ddau Bwyllgor yn rhagorol ac y byddent yn esiamplau da i aelodau eraill a fyddai, o bosib, yn dymuno dod yn gadeiryddion pwyllgor eu hunain yn y dyfodol.

- Roedd parch tuag at y Cadeirydd yn amlwg yn yr holl gyfarfodydd a gafodd eu monitro.

  Roedd yr aelodau'n dangos parch tuag at ei gilydd ac roedd tystiolaeth glir o safbwyntiau gwahanol yn cael eu mynegi.

  Roedd perthynas gadarnhaol, ond broffesiynol, rhwng aelodau a swyddogion.

- Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos fod yr Aelodau wedi paratoi'n dda. Roeddent yn cyfranogi ac yn cyfrannu at y drafodaeth.

- Roedd cydweithio arbennig o effeithiol rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini a Phartneriaeth.

- Roedd yn amlwg fod Cadeirydd y Cyngor Sir wedi gweithredu ar adborth y Pwyllgor Safonau yn dilyn y cyfarfod monitro cyntaf, mewn perthynas â threfniadau'r cyfarfod a

sicrhau ymgysylltiad y cyhoedd, ac roedd y Pwyllgor Safonau'n croesawu'r gwelliant a gafwyd. Roedd y materion a nodwyd yn ymwneud â chanfyddiad tebygol y cyhoedd o'r cyfarfod ac, er mai materion bychan oeddent, teimlwyd fod y newidiadau a fabwysiadwyd wedi gwneud y cyfarfodydd yn fwy eglur a'i bod yn haws i leygwyr ddilyn digwyddiadau mewn modd ymgysylltiol.

- Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau a oedd yn rhagfarnu yn ystod y broses fonitro.

- Datganwyd diddordebau personol a byddai'r Pwyllgor Safonau yn annog aelodau i ystyried, wrth baratoi ar gyfer cyfarfodydd, a oes ganddynt ddiddordebau ai peidio; gofyn am gyngor ymlaen llaw os oes ei angen arnynt ac, efallai, hysbysu'r Cadeirydd y byddant yn datgan diddordebau ar eitemau penodol (er mwyn cynorthwyo'r Cadeiryddion; nid yw hyn yn ofyn cyfreithiol).

- Ni chafwyd cyfle i weld y cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor Sgriwtini ond ystyriwyd bod y trefniadau yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn dda iawn.

- Nid oedd cyfle i arsylwi aelodau cyfetholedig gan nad oedd unrhyw eitemau perthnasol ar raglenni'r Pwyllgorau Sgriwtini.

- Roedd yr unig faterion a oedd yn peri pryder arwyddocaol, a ganfuwyd gan y Pwyllgor Safonau, yn ymwneud â rheolaeth wleidyddol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Mae'r materion hyn wedi eu codi gyda'r pedwar Arweinydd Grŵp.

**5. ARGYMHELLION Y PWYLLGOR SAFONAU**

Yr argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn llythyr y Pwyllgor Safonau at bob aelod yw:

- Cod Ymddygiad

1) Mae unrhyw Gadeirydd/Is-gadeirydd Pwyllgor nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant ar sgiliau cadeirio yn ddiweddar yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant o'r fath. Dylai'r un lefel o hyfforddiant sydd ar gael i Gadeiryddion fod ar gael i Is-gadeiryddion hefyd. Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell y dylai arweinyddion grwpiau wneud presenoldeb mewn hyfforddiant o'r fath yn orfodol.

2) Dylid darparu hyfforddiant i Gadeiryddion ar gyfer unrhyw Gadeiryddion/Is-gadeiryddion newydd a benodir a phob Cadeirydd/Is-gadeirydd a benodir ar ddechrau tymor Cyngor newydd.

3) Dylai'r hyfforddiant y cyfeirir ato yn 1 a 2 uchod gynnwys rheoli cyfarfodydd hybrid yn effeithiol a chyfraniadau gan siaradwyd cyhoeddus lle bo'n berthnasol.

4) Mae angen i bob aelod, ond yn enwedig Cadeiryddion/Is-gadeiryddion, gael gwerthusiad priodol o'u sgiliau TG a dylid cynnig hyfforddiant pellach iddynt os oes angen. Deallir fod hyn wedi digwydd, ond roedd y Pwyllgor Safonau'n teimlo nad oedd hyn wedi bod yn effeithiol mewn un achos. Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell y dylai arweinyddion grwpiau perthnasol gymryd y cyfrifoldeb statudol a roddwyd iddynt a'i gwneud yn orfodol i aelodau eu grwpiau fynychu hyfforddiant o'r fath lle mae ail-werthuso'n dangos fod yr angen am hyfforddiant yn parhau. Dylid ystyried diweddaru hyfforddiant o'r fath yn yr un modd â sgiliau cadeirio.

- Yn gyffredinol

5) Gofynnwyd a fyddai modd darparu cloc sy'n cyfrif am yn ôl y byddai siaradwyr cyhoeddus yn gallu ei weld wrth gyfranogi yn y tri phwyllgor sy'n caniatáu i'r cyhoedd gyfranogi'n uniongyrchol.

6) Awgrymwyd bod angen i bob adroddiad ganolbwyntio'n gliriach ar benderfyniadau/canlyniadau a chynnwys dim ond y wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau i lunio barn/gwneud penderfyniadau gwybodus. A dim acronymau!

7) Nodwyd fod problemau technegol TG wedi codi ar brydiau ac y byddai'n fanteisiol cael cymorth TG ar gyfer Pwyllgorau. Er y gwerthfawrogir fod problemau o ran adnoddau/capasiti, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe gallai swyddog TG enwebedig fod "ar alwad" i roi cymorth yn ystod cyfarfodydd Pwyllgor os oes angen, ond ni fyddai disgwyl iddynt fod yn bresennol drwy'r amser.

8) Ni ystyriwyd fod trefniadau gwe-ddarlledu'r Cyngor, o safbwynt y cyhoedd sy'n gwylio, yn darparu'r profiad gorau; er gwaethaf cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol. Byddai'n well pe bai gwahaniaeth clir rhwng aelodau'r pwyllgor, y rhai sy'n cynghori'r pwyllgor a'r aelodau eraill. Pe bai'n dechnegol bosib, byddai'n well i enwau llawn unigolion gael eu cynnwys o dan eu fideo, gan ddynodi "Cynghorydd" / "Aelod Cyfetholedig" lle bo'n briodol. Os nad yw'n bosib nodi aelodau pwyllgor yn benodol, yna dylid gwneud hyn ar ddechrau'r cyfarfod drwy alw'r gofrestr ar gyfer y rhai sy'n aelodau o'r pwyllgor.

9) Dylai camerâu fod ymlaen, hyd yn oed i'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y cyfarfod er mwyn osgoi sgriniau du ar we-ddarllediad cyfarfodydd.

10) Byddai cael eglurder ynghylch pwy yw unigolion, a'u rolau, yn ddefnyddiol iawn i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gwylio ac yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu gan mai dim ond un llais sydd i'w glywed, gan ei gwneud hi'n anodd adnabod pwy sy'n siarad ar adegau.

11) Roedd yn eithaf anodd gweld y cyfarfod wrth fynychu o bell fel aelod o'r cyhoedd; roedd beth oedd i'w weld yn gyfyngedig ac yn aml nid oedd modd gweld y siaradwyr. Mae'r profiad yn dra gwahanol o gymharu â mewngofnodi o bell fel aelod neu swyddog. Awgrymir na fydd y profiad gwylio gwael i'r cyhoedd yn helpu i wella ymgysylltiad â gwleidyddiaeth a gallai hyn fod yn arwyddocaol pan fydd materion dadleuol yn cael eu trafod.

## 6. GWAITH PELLACH YN DEILLIO O'R PEILOT ARSYLWI HWN

Oherwydd bod gan aelodau'r Pwyllgor Safonau bryderon penodol am y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a'r canfyddiad nad oedd yr adborth cychwynnol i'r Cadeirydd wedi cael unrhyw effaith, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i fonitro'r Pwyllgor hwn.

Yn fwy cyffredinol, y bwriad yw cynnal adolygiad o'r peilot hwn a phenderfynu sut a phryd i barhau â'r gwaith hwn yn y dyfodol. Gwneir hyn mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor. Serch hynny, o ystyried y sicrwydd cyffredinol a gafodd y Pwyllgor Safonau wrth gynnal yr arsylwadau hyn, mae'n debygol y bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei wneud yn achlysurol gan ddefnyddio dull "cyffyrddiad ysgafn".

Ar ôl gweld y llythyr adborth y mae aelodau'r Pwyllgor Safonau'n dymuno ei rannu gydag aelodau etholedig, mae'r Prif Weithredwr wedi awgrymu y dylid gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y materion cyffredinol a godwyd yn ystod y peilot arsylwi hwn, nad ydynt yn rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau, gan gynnwys profiad y cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd hybrid. Mater ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fydd dewis os yw'n dymuno ymgymryd â'r darn gwaith hwn.

## 7. ARGYMHELLION

Bod y Pwyllgor Safonau yn:

1. Derbyn argymhelliad y Prif Weithredwr bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y materion cyffredinol hynny a nodwyd yn ystod yr ymarfer arsylwi nad ydynt yn rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau;

2. Parhau i fonitro'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol; a

3. Ail-ymweld â'r peilot a'r ffurflen werthuso mewn 6 mis.

CYFARFODYDD / MEETINGS

| **Medi / September 2022** | | | **Aelodau i fynychu / Members attending** |
|---|---|---|---|
| Mer/Wed | 7 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion / Planning and Orders Committee | John R Jones<br>Sharon Warnes |
| ~~Maw/Tues~~ | ~~13~~ | ~~2.00pm Cyngor Sir / County Council~~ | ~~Rhys Davies~~<br>~~Sharon Warnes~~ |
| Llun/Mon | ~~19~~<br>26 | 9.30am Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership and Regeneration Scrutiny Committee | John R Jones<br>Sharon Warnes |
| | | 2pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Ch1)/Corporate Scrutiny Committee (Q1) | John R Jones<br>Rhys Davies |
| Iau/Thur | ~~29~~<br>30 | 2.00pm Cyngor Sir / County Council (cadarnhau cyfrifon terfynol / approval of final accounts) | John R Jones<br>Gill Murgatroyd |
| **Hydref / October 2022** | | | |
| Mer/Wed | 5 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion / Planning and Orders Committee | Gill Murgatroyd – methu mynychu / unable to attend<br>Sharon Warnes |
| Maw/Tues | 18 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership and Regeneration Scrutiny Committee | Rhys Davies<br>Gill Murgatroyd |
| Mer/Wed | 19 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / Corporate Scrutiny Committee | John R Jones<br>Rhys Davies |
| Iau/Thur | 27 | 2.00pm Cyngor Sir (Arbennig) County Council (Extraordinary) | John R Jones<br>Rhys Davies |
| **Tachwedd / November 2022** | | | |
| ~~Mer/Wed~~ | ~~2~~ | ~~1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion / Planning and Orders Committee~~ | ~~Gill Murgatroyd~~<br>~~Sharon Warnes~~ |
| Maw/Tues | 22 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Ch2)/Corporate Scrutiny Committee (Q2) | Rhys Davies<br>Sharon Warnes |
| ~~Mer/Wed~~ | ~~23~~ | ~~2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership and Regeneration Scrutiny Committee~~ | ~~John R Jones~~<br>~~Gill Murgatroyd~~ |
| **Rhagfyr / December 2022** | | | |
| Maw/Tues | 6 | Cyngor Sir / County Council | Rhys Davies<br>Gill Murgatroyd |
| ~~Mer/Wed~~ | ~~7~~ | ~~1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion / Planning and Orders Committee~~ | ~~John R Jones~~<br>~~Sharon Warnes~~ |

# TAFLEN WERTHUSO / EVALUATION SHEET

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD / DATE** | |
| **ENW'R PWYLLGOR**<br><br>**NAME OF COMMITTEE** | |
| **AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU SY'N MYNYCHU**<br><br>**MEMBERS OF STANDARDS COMMITTEE ATTENDING** | |
| **AELODAU'R PWYLLGOR NAD YDYNT YN BRESENNOL**<br><br>**COMMITTEE MEMBERS NOT IN ATTENDANCE** | |
| **SIARAD CYHOEDDUS, OS YN BERTHNASOL**<br><br>**PUBLIC SPEAKING, IF RELEVANT** | |
| **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**<br><br>**INTERESTS DECLARED** | |
| **PERSONOL / PERSONAL** | |
| **SY'N RHAGFARNU / PREJUDICIAL** | |
| **ESBONIAD O'R DIDDORDEB**<br><br>**EXPLANATION OF INTEREST** | |
| **OS YW'N RHAGFARNU, A WNAETH YR AELOD(AU) ADAEL YR YSTAFELL**<br><br>**IF PREJUDICIAL, DID THE MEMBER/S LEAVE THE MEETING ROOM** | |
| **PARCH TUAG AT Y CADEIRYDD**<br><br>**RESPECT FOR CHAIR** | |
| **PARCH TUAG AT AELODAU ERAILL**<br><br>**RESPECT FOR OTHER MEMBERS** | |

| | |
|---|---|
| **PARCH TUAG AT SWYDDOGION**<br><br>**RESPECT FOR OFFICERS** | |
| **PARCH TUAG AT GYFRANOGWYR TRYDYDD PARTI**<br><br>**RESPECT FOR THIRD PARTY PARTICIPANTS** | |
| **RHYNGWEITHIO RHWNG AELODAU CYFETHOLEDIG AC AELODAU ETHOLEDIG, OS YN BERTHNASOL**<br><br>**INTERACTION BETWEEN COOPTED MEMBERS AND ELECTED MEMBERS, IF RELEVANT** | |
| **PAWB A OEDD YN CYMRYD RHAN WEDI CAEL CYFLE TEG I GYFRANNU**<br><br>**ALL PARTICIPANTS GIVEN A FAIR OPPORTUNITY TO CONTRIBUTE** | |
| **A OEDD YR AELODAU WEDI PARATOI'N DDIGONOL**<br><br>**WERE THE MEMBERS ADEQUATELY PREPARED** | |
| **A OEDD YNA UNRHYW YMDDYGIAD A ALLAI DDWYN ANFRI AR YR AWDURDOD**<br><br>**WAS THERE ANY CONDUCT THAT MIGHT BRING THE AUTHORTY INTO DISREPUTE** | |
| **CADEIRIO'R CYFARFOD**<br><br>**CHAIRING OF THE COMMITTEE** | |
| **SYLWADAU PELLACH**<br><br>**FURTHER COMMENTS** | |
| **UNRHYW HYFFORDDIANT NEU GEFNOGAETH AR GYFER Y PWYLLGOR NEU AELODAU UNIGOL**<br><br>**ANY TRAINING AND SUPPORT FOR THE COMMITTEE OR INDIVIDUAL MEMBERS** | |

| | |
|---|---|
| **UNRHYW ARFERION DA / DYSGU I'W RANNU**<br><br>**ANY GOOD PRACTICE / LEARNING TO BE SHARED** | |
| **ANGEN AM UNRHYW BWYNTIAU / ADBORTH ARALL**<br><br>**ANY OTHER POINTS / FEEDBACK REQUIRED** | |
| **ADBORTH I GADEIRYDD Y PWYLLGOR**<br><br>**FEEDBACK TO THE COMMITTEE CHAIR** | |
| **ADBORTH I'R ARWEINYDDION GRWPIAU**<br><br>**FEEDBACK TO THE GROUP LEADERS** | |
| **ADBORTH I UNRHYW ARWEINYDD GRŴP PENODOL**<br><br>**FEEDBACK TO ANY SPECIFIC GROUP LEADER** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Datrysiad Lleol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas y Protocol Datrysiad Lleol (y Protocol) yw datrys anghydfod rhwng aelodau'r Cyngor yn gyflym pan dderbynnir cwynion neu bryderon am achosion o gamymddwyn lefel isel sy'n mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Mae'n ffordd anffurfiol o gefnogi'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn ymarferol ar lefel leol a thrwy'r Protocol mae modd i bawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod fanteisio ar gymorth gan y Pwyllgor Safonau, lle bo angen.

Mae protocol wedi ei ddefnyddio  gan y Pwyllgor Safonau ers rhai blynyddoedd, gyda'r nod o fynd i'r afael â chwynion lefel isel ynglŷn ag ymddygiad sydd ddim yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a/neu er mwyn delio â materion cyn gynted â phosibl i osgoi mynd â materion ymhellach yn ddiangen. Yn ei dro bydd hyn yn helpu i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel, mabwysiadu a chynnal perthnasau gwaith cadarnhaol a gwarchod enw da'r Cyngor. Nid yw'r Protocol yno i ddisodli awdurdodaeth OGCC ond yn hytrach ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy OGCC ar gyfer cynnal ymchwiliad.

Nid oes gofyniad statudol i fabwysiadu Protocol o'r fath ac nid oes fformat safonol; mae'n fater i bobl awdurdod unigol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle. Yn fwy diweddar, mae Adroddiad Penn: 'Adolygiad Annibynnol ar y Fframwaith Safonau Moesegol' yn nodi mai "*Nod datrysiadau lleol yw datrys materion ar gam cynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen a all niweidio cydberthnasau personol o fewn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod".*

O ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn enwedig mewn perthynas â'r dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grŵp, mae'r Pwyllgor Safonau wedi adolygu'r Protocol a pharatoi fersiwn newydd, i adlewyrchu'r Cod fel ac y mae ar hyn o bryd. Mae'r fersiwn newydd yn ystyried y rôl ehangach y mae disgwyl i Arweinwyr Grŵp ei chwarae mewn perthynas ag ymddygiad aelodau.

## 2. HYNT Y PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL NEWYDD ARFAETHEDIG HYD YMA

Mae copi o'r Protocol Datrysiad Lleol cyfredol ar gael yn **ATODIAD 1**.

Cafodd y Protocol diwygiedig ei gyflwyno gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grŵp ar 29 Medi 2022. Mae copi o'r blaen adroddiad a gyflwynwyd i'r Arweinwyr Grŵp ar gael yn **ATODIAD 2**.

Roedd consenswS ymhlith yr Arweinwyr Grŵp eu bod yn cefnogi egwyddorion y Protocol diwygiedig ac fe wnaethant nodi eu bod yn barod i weithio yn unol â'r cynnig.

Cafodd y Protocol ei drafod yn ystod Sesiwn Friffio i'r holl aelodau ar 1 Rhagfyr 2022.

Bwriedir i'r Protocol fod ar gael i'r aelodau ar Monitor o hyn ymlaen.

## 3. SUT Y BYDD Y PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL NEWYDD YN GWEITHIO

3.1 Egwyddorion y Protocol:

- Mae'r Protocol yn broses gyfryngu wirfoddol ac nid oes yn rhaid i Aelodau gymryd rhan. Gall Aelodau hefyd dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg heb unrhyw oblygiadau.
- Os oes anghydfod, anogir Aelodau i geisio datrys y mater drwy'r Protocol os yw hynny'n bosibl ac yn briodol.
- Mae'r Protocol ar gyfer materion rhwng aelodau.
  - Arweinydd y Grŵp fydd yn delio â chwynion gan aelodau am aelodau eraill o'r grŵp  Y prif ffocws fydd ymddygiad y blaid/grŵp a bydd Arweinydd y Grŵp yn gyfrifol am reoli ymddygiad aelodau'r grŵp.
  - Os oes pryder aelod-swyddog, dylid adolygu'r Protocol ar gyfer y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion.
- Er bod y Protocol yn ddibynnol ar ymrwymo i ddod o hyd i ddatrysiad mewnol, nid yw'r Protocol  yno i rwystro dadleuon, heriau neu graffu gwleidyddol dilys.
- Mae achosion difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad, e.e. pan fydd aelod wedi ceisio dylanwadu neu gymryd rhan mewn penderfyniad er mwyn elwa'n bersonol o'r penderfyniad hwnnw , y tu hwnt i gwmpas y Protocol hwn a rhaid cyfeirio achosion o'r fath at y rheoleiddiwr allanol.

3.2 Trosolwg byr o'r Broses sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen newydd:

- Mae'r Protocol yn berthnasol pan fydd aelod (achwynydd) yn gwneud cŵyn am aelod o'r un grŵp gwleidyddol neu o grŵp gwleidyddol gwahanol (ymatebydd).
- Bydd Arweinydd Grŵp yn ymdrin â chŵyn gan aelod am aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol.
- Dylai aelod drafod cŵyn am aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol gyda'u Harweinydd Grŵp; bydd yr Arweinydd Grŵp yna yn trafod y mater gydag Arweinydd Grŵp yr ymatebydd.

- Disgwylir i Arweinwyr Grŵp fynd ati'n rhagweithiol i geisio datrys materion o'r fath, a rhoddir pwyslais ar ddatrys anghydfod yn gynnar drwy fesurau yn cynnwys cyfryngu, cymodi, hyfforddi, datblygu neu addysgu, neu gyfuniad o'r rhain.
- Fe all yr Arweinwyr Grŵp, yn ôl eu disgresiwn, ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) ynglŷn â'r camau y mae'r Arweinydd Grŵp yn bwriadu'u cymryd. Fe all arweinwyr grŵp hefyd ddefnyddio Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) fel "seinfwrdd".
- Pan fydd achos o gamymddygiad sylweddol, neu achosion o dorri'r rheolau'n barhaus, efallai y bydd y Swyddog Monitro'n cynghori'r achwynydd i gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Os ydi'r gŵyn yn ymwneud ag arweinydd grŵp, gofynnir i Gadeirydd y Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â'r gŵyn, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai).
- Bydd Cadeirydd y Cyngor yn ymgymryd â swyddogaeth Arweinydd Grŵp pan fo aelod neu aelodau yn ddi-blaid.
- Bydd yr holl gyfarfodydd fel rhan o'r Broses hon yn breifat a bydd y trafodaethau'n gyfrinachol; ni fydd gwaith papur na chofnodion yn cael eu cadw ar ôl i'r broses gyfryngu ddod i ben.
- Bydd adborth yn cael ei roi i'r Arweinwyr Grŵp, os ydi'r ddau aelod yn cytuno; a bydd yr adborth yn ddienw ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac arferion da.

3.3 Rôl y Pwyllgor Safonau fel rhan o'r Broses:

- Yn ogystal â chynghori a chefnogi'r Arweinwyr Grŵp (ar gais), os nad oes modd datrys y mater drwy brosesau disgyblu'r blaid/grŵp, fe all yr achwynydd gyfeirio'r mater at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Dylid cyfeirio'r mater cyn pen 7 diwrnod o'r dyddiad pryd y methodd prosesau disgyblu'r blaid/grŵp â datrys y mater; bydd unrhyw gwynion a godir y tu allan i'r cyfnod hwn yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai).
- Rhaid i unrhyw un gaiff ei enwebu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau fod yn aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau.
- Rôl y Pwyllgor Safonau ydi hwyluso'r Broses – nid llunio barn, beio neu ddod i unrhyw ganfyddiadau; er, fe allant wneud argymhellion anffurfiol ond nid oes rhaid i'r pleidiau eu dilyn.
- Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn hwyluso cyfarfodydd cyfryngu dim ond os ydynt wedi derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i wneud hynny.
- Er bod y broses yn nodi cyfanswm o bedwar cyfarfod, dim ond canllaw yw hyn a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cael ei arwain i raddau helaeth gan y pleidiau.
- Y broses gyfryngu:
  - ➔ Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn cyfeiriad gan yr achwynydd.
  - ➔ Cyfarfod 1:
    Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cwrdd â'r achwynydd. Neu, fe allai'r achwynydd fynegi ei bryderon yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai).
    Waeth pa opsiwn a ddewisir, pwrpas y cam cyntaf yw cadarnhau beth sydd wedi digwydd gyda'r achwynydd, sut mae'r digwyddiad yn torri'r Cod ym marn yr achwynydd a sut mae'r achwynydd yn dymuno datrys y mater.
  - ➔ Os ydi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn fodlon ymgymryd â rôl cyfryngu, byddant yn cysylltu gyda'r ymatebydd.
  - ➔ Cyfarfod 2:

Efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn penderfynu gofyn i'r ymatebydd gwrdd â hwy.
Fel arall, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn ysgrifennu at yr ymatebydd.
Naill ffordd neu'r llall, yn ystod y cam yma, bydd yr ymatebydd yn derbyn gwybodaeth fel y gallant ddeall y gŵyn yn eu herbyn ac ystyried p'un ai a ydynt yn dymuno cymryd rhan yn y cyfarfod cyfryngu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) ai peidio.
Bydd gan yr ymatebydd 7 diwrnod i gadarnhau ei barodrwydd i gymryd rhan yn y broses gyfryngu; os nad ydi'r ymatebydd yn ymateb neu'n gwrthod y cynnig, ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd unrhyw gamau pellach.

➔ Cyfarfod 3:
Os ydi'r ymatebydd wedi cytuno i gwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) er mwyn cymryd rhan yn y broses gyfryngu, yna bydd cyfarfod arall yn cael ei drefnu gyda'r ymatebydd i drafod eu hymateb i'r gŵyn/eu safbwynt hwy.

➔ Cyfarfod 4 – y cyfarfod cyfryngu:
Bydd y cyfarfod cyfryngu'n cynnwys yr achwynydd, yr aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, a chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Pwrpas y cyfarfod fydd crisialu'r mater/ion a gweld a oes modd datrys yr anghydfod.

➔ Efallai y bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu os ydi'r pleidiau'n cytuno.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n:

4.1.1 nodi bod yr Arweinwyr Grwp wedi cytuno i'r Protocol Datrysiad Lleol yn **Atodiad 1**;

4.1.2 derbyn adborth ar lafar ar ganlyniad y sesiwn briffio a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2022 i holl aelodau'r Cyngor;

4.1.3 cymeradwyo mabwysiadu'r Protocol Datrysiad Lleol yn unol â'r drafft yn **Atodiad 1**;

4.1.4 annog aelodau i ddefnyddio'r Protocol Datrysiad Lleol yn **Atodiad 1** dan amgylchiadau perthnasol; ac

4.1.5 adolygu'r broses a fabwysiadwyd a'r ddogfen ei hun ymhen 12 mis.

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

DRAFT

| **RHAN 1 – CEFNDIR** | |
|---|---|
| **Pam fod angen Protocol Datrysiad Lleol arnom ni?** | Pwrpas y Protocol ydi:<br><br>• hyrwyddo safonau ymddygiad uchel;<br>• meithrin a chynnal perthnasau gwaith cadarnhaol;<br>• mynd i'r afael â chwynion lefel isel yn ymwneud ag ymddygiad sydd ddim yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC);<br>• delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosibl rhag ofn i bethau waethygu;<br>• gwarchod enw da'r Cyngor.<br><br>**I grynhoi**, nod y Protocol yw datrys materion yn gyflym a dod â'r pleidiau sy'n derbyn cymorth gan y Pwyllgor Safonau ynghyd, lle bo angen. |
| **Oes rhaid cael Protocol?** | • Nid oes gofyniad statudol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi ei gwneud hi'n glir eu bod yn disgwyl i awdurdodau lleol roi'r fath drefniadau ar waith<br>• Mae Adroddiad Penn: 'Adolygiad Annibynnol ar y Fframwaith Safonau Moesegol' yn nodi:<br><br>***"Nod datrysiadau lleol yw datrys materion ar gam cynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen a all niweidio cydberthnasau personol o fewn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod".***<br><br>• Nid oes rhaid i aelodau gymryd rhan yn y broses. Proses gyfryngu wirfoddol yw hon. |
| **Pa brosesau eraill sydd ar gael i aelodau?** | • Ni fwriedir i'r Protocol ymyrryd â chamau disgyblu o fewn grwpiau/pleidiau na'u disodli. Bydd gan bob plaid/grŵp gwleidyddol brosesau disgyblu mewnol y mae'n rhaid eu dilyn.<br>• Ni fwriedir i'r Protocol ddisodli awdurdodaeth OGCC, ei nod fydd delio â'r nifer gyfyngedig o gwynion sydd ddim yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer ymchwiliad gan OGCC.<br>• Ni fwriedir i'r Protocol ddisodli'r Cod Ymddygiad, yn hytrach bydd yn ffordd anffurfiol o gefnogi'r cod yn lleol. |

| | |
|---|---|
| | • Ni fydd y Protocol yn disodli'r Protocol Perthnasau ar gyfer Aelodau a Swyddogion sydd wedi'i nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor.<br><br>• Fe ddylai Aelodau wneud pob ymdrech i ddatrys anghydfod drwy'r Protocol, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, ac fe ddylent bob amser fod yn ddarostyngedig i'w rhwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau. |
| **Beth ydi egwyddorion cyffredinol y Protocol?** | • Hyrwyddo safonau ymddygiad uchel fel ffordd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymysg aelodau er mwyn galluogi i aelodau a swyddogion ganolbwyntio ar "y gwaith".<br><br>• Cyfeirio at reoleiddwyr allanol yn niffyg dim arall, oni bai y ceir achos difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad, ee os ydi'r aelod wedi ceisio dylanwadu neu gymryd rhan mewn penderfyniad sydd o ddiddordeb personol iddynt. Mae materion o'r fath y tu allan i gwmpas y Protocol hwn.<br><br>• Dylai Aelodau osgoi gwrthdaro personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig y Cyngor llawn, ac yn y cyfryngau.<br><br>• **Ni ddylai'r ymrwymiad i ddatrys materion yn lleol rwystro trafodaethau, heriau neu graffu gwleidyddol dilys.**<br><br>• Ymddygiad y blaid/grŵp yw'r prif ffocws, a bydd pob arweinydd grŵp yn gyfrifol am reoli eu haelodau eu hunain. |
| **Beth ydi cyfrifoldebau'r arweinwyr grwpiau?** | • Mae'r camau rhesymol y gallai Arweinydd y Grŵp eu cymryd yn cynnwys:<br><br>• arddangos ymrwymiad personol i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb a safonau<br>• annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb a safonau<br>• sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw<br>• hybu moesgarwch a pharch o fewn cyfathrebiadau a phwyllgorau'r Grŵp ac ym mhwyllgorau ffurfiol y Cyngor<br>• hybu gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a'r Swyddogion Monitro i ddatrys materion yn lleol |

| | |
|---|---|
| | • hybu diwylliant o fewn y Grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb<br>• mynychu cyfarfod Pwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir iddo wneud hynny er mwyn trafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad<br>• gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynglyn â gwella safonau<br>• cydweithio ag arweinwyr grŵp eraill, o fewn rheswm, i gefnogi safonau ymddygiad uchel o fewn y cyngor |
| **Beth ydi cyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau?** | • Monitro ac annog arweinwyr grŵp i gydymffurfio â'r ddyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'r grŵp;<br>• Cynghori ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad, y Protocol hwn, yn ogystal ag unrhyw dogfennau/ymgynghoriadau eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor;<br>• Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad; yn cynnwys mynychu Cyngor / cyfarfodydd pwyllgorau ar adegau;<br>• Darparu cyngor, neu ddarparu neu drefnu hyfforddiant ar y Cod i aelodau;<br>• Derbyn adroddiadau gan arweinwyr grŵp;<br>• Rhannu arferion gorau;<br>• Darparu adborth amserol ac ystyrlon i arweinwyr grŵp. |
| **RHAN 2 – SUT MAE'R PROTOCOL YN GWEITHIO?** | |
| **Beth a ddisgwylir gan Arweinwyr Grŵp?** | • Arweinydd y Grŵp fydd yn delio â chwynion gan aelodau am aelodau eraill o'r grŵp.<br>• Os oes gan aelod gŵyn ynglŷn ag aelod o grŵp gwleidyddol arall, fe ddylent gwyno wrth eu harweinydd y grŵp yn y lle cyntaf. Wedyn, bydd yr arweinydd grŵp yn cyfeirio'r mater at arweinydd y grŵp sy'n gyfrifol am yr aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi.<br>• Ar ôl derbyn cwyn, boed hynny gan aelod o'r grŵp neu gan arweinydd grŵp arall fe ddylai pob arweinydd grŵp gymryd cyfrifoldeb (ond nid cyfrifoldeb personol) dros reoli ymddygiad eu haelodau.<br>• Yn amodol ar brosesau/trefniadau presennol y blaid/grŵp, fe |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | ddylai'r camau disgyblu fod yn anffurfiol, a dylid eu datrys drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn gynted â phosib.<br><br>• Fe all Arweinwyr Grŵp ddewis cadw cofnod ond ni ddylai'r broses fod yn rhy feichus.<br><br>• Fe ddylai'r pwyslais fod ar ddatrysiad cynnar ac fe all gynnwys cyfryngu, cymodi, hyfforddi, datblygu neu addysg; neu gyfuniad o'r rhain. Yn amlwg, dylid ymdrechu i fod yn deg a chyson.<br><br>• Yn ystod y broses hon, fe all yr arweinydd grŵp ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) ynglŷn â'r camau y mae'r arweinydd grŵp yn bwriadu eu cymryd. Fe all arweinwyr grŵp hefyd ddefnyddio Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) fel "seinfwrdd".<br><br>• Cyn ystyried unrhyw gosb, neu hyfforddiant/cyfleoedd datblygu ac ati., bydd arweinydd y grŵp perthnasol yn ymgynghori  gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) a bydd yn ymdrechu i ddarparu cyngor didwyll, teg, cyson a chyfrinachol i bob arweinydd grŵp sydd yn gofyn am drafodaeth o'r fath.<br><br>• Pan fydd achos o gamymddygiad sylweddol, neu achosion o dorri'r rheolau'n barhaus, efallai y bydd y Swyddog Monitro'n cynghori'r achwynydd i gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>• Os ydi'r gwyn am arweinydd grŵp, gofynnir i Gadeirydd y Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â'r gŵyn, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai)<br><br>• Os yw'r mater yn ymwneud âg aelod neu aelodau heb gysylltiad â grŵp, bydd Cadeirydd y Cyngor yn ymgymryd â swydd yr arweinydd grŵp. |
| **Beth a ddisgwylir gan y Pwyllgor Safonau?** | • Yn ogystal â chynghori a chefnogi'r arweinwyr grŵp, fel y nodir uchod, os nad oes modd datrys y mater drwy brosesau disgyblu'r blaid/grŵp, gellir cyfeirio'r mater at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai).<br><br>• Gofynnir i'r aelod sy'n gwneud cwyn fynegi eu pryderon yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Neu, gwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) os byddai'n well gan yr achwynydd wneud hynny. Yn y naill achos, bydd hyn er mwyn cadarnhau:<br><br>  • pryd, lle a sut y digwyddodd y digwyddiad perthnasol<br>  • sut a pham y mae'r digwyddiad yn torri'r Cod Ymddygiad<br>  • sut y mae'r achwynydd yn dymuno datrys y mater<br><br>• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn ystyried |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | y gŵyn a chynghori'r achwynydd p'un ai a ydi'r Pwyllgor Safonau yn barod i ymgymryd â rôl cyfryngu ai peidio.<br><br>• Os ydi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn fodlon ymgymryd â rôl cyfryngu, byddant yn cysylltu â'r aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, i egluro natur y gŵyn, a gofyn a ydi'r aelod yn fodlon cymryd rhan mewn sesiwn gyfryngu gyda'r achwynydd ac aelod o'r Pwyllgor Safonau.<br><br>• Gofynnir i'r aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi i ymateb i'r cynnig cyn pen 7 diwrnod. Os ydynt yn gwrthod, neu ddim yn ymateb, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd a bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried bod y mater ar ben. |
| **Oes yna unrhyw gyfyngiadau o ran amser?** | • Dylid gwneud cwyn cyn pen 7 diwrnod o'r dyddiad pryd y methodd prosesau disgyblu'r blaid/grŵp â datrys y mater.<br><br>• Bydd unrhyw gwynion a godir y tu allan i'r cyfnod hwn yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). |
| **Sawl cyfarfod fydd ei angen?** | • Bydd nifer y cyfarfodydd yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r achos ac, yn benodol, y posibilrwydd o ddatrys y mater.<br><br>Canllaw yn unig yw'r canlynol ac nid oes rhaid cadw at y nifer o gyfarfodydd/y broses a awgrymir. Bydd yn ddibynnol iawn ar yr hyn y mae'r pleidiau yn ei gytuno. Felly, dyma enghraifft o'r hyn a allai ddigwydd yn ymarferol:- |
| Cyfarfod rhagbaratoadol 1 | • bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cwrdd â'r achwynydd am y tro cyntaf, fel y nodir uchod, i dderbyn yr wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r gŵyn a chadarnhau'r datrysiad a ddymunir. |
| Cyfarfod rhagbaratoadol 2 | • yn yr un modd, bydd yr ail gyfarfod gyda'r aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, fel y nodir uchod, i egluro'r gŵyn a chadarnhau a yw'r aelod yn barod i gwrdd â'r achwynydd ac aelod o'r Pwyllgor Safonau i weld a oes modd datrys y mater drwy gyfryngu. |
| Cyfarfod rhagbaratoadol 3 | • os ydi'r aelod yn derbyn y cynnig o gyfarfod cyfryngu, yna bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cwrdd â thestun y gŵyn i drafod eu hymateb i'r gŵyn / eu safbwynt hwy. |
| Cyfarfod cyfryngu | • bydd y cyfarfod cyfryngu'n cynnwys yr achwynydd, yr aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, a chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Pwrpas y cyfarfod fydd crisialu'r mater/ion a gweld a oes modd datrys yr anghydfod. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • efallai y bydd cyfarfodydd cyfryngu pellach yn cael eu cynnal os ydi pawb yn cytuno bod angen cyfarfod/cyfarfodydd pellach a'i bod hi'n eithaf tebygol y gellir datrys y mater.<br><br>• yn ystod y cyfarfod/ydd cyfryngu, ac wedi hynny, nid fydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ac enwebai) yn llunio barn, beio neu ddod i unrhyw ganfyddiadau. Fe allant, fodd bynnag, wneud argymhellion anffurfiol i'r naill barti.  Ni fydd y fath argymhellion yn orfodol.<br><br>• bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn hwyluso'r cyfarfod cyfryngu dim ond os ydynt wedi derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i wneud hynny a bod yr hyfforddiant hwnnw'n gyfredol.<br><br>• bydd yr holl gyfarfodydd yn breifat. Bydd y trafodaethau'n gyfrinachol.<br><br>• ni fydd gwaith papur na chofnodion yn cael eu cadw ar ôl i'r broses gyfryngu ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys cofnodion digidol.<br><br>• bydd adborth yn cael ei roi i arweinwyr grŵp, os ydi'r ddau aelod yn cytuno.  Bydd yr adborth yn ddienw a bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac arferion da. **Ni fydd unrhyw wybodaeth sensitif yn cael ei rhannu.** |

DRAFT

Troednodion:

1. Mae sawl cyfeiriad yn y Protocol at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Mae enwebai yn cyfeirio at aelodau lleyg yn unig. Ni fydd aelodau etholedig o'r Cyngor Sir, nac  aelodau cyfetholedig o'r cynghorau tref a chymuned yn cymryd rhan yn y broses gyfryngu.

2. Fel y nodir yn y ddogfen, nid yw'r orfodol cymryd rhan yn y Protocol  ac fe all yr aelodau sydd ynghlwm ag unrhyw fater dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg; hyd yn oed os ydynt eisoes wedi cytuno i gymryd rhan yn y broses gyfryngu. Ni fydd unrhyw oblygiadau o ganlyniad i dynnu'n ôl o'r broses.

3. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan yr Arweinwyr Grŵp, bydd unrhyw newidiadau i'r Protocol hwn yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r holl arweinwyr grŵp a chyda'u cysyniad pendant hwy.

**Adroddiad i'r Arweinwyr Grŵp gan y Pwyllgor Safonau**

Mae'r fframwaith ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, yng Nghymru, yn cynnwys y deg egwyddor ganlynol (sy'n deillio o "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" yr Arglwydd Nolan ac sy'n ymhelaethu arnynt):

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a phriodoldeb
- Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
- Cydraddoldeb a pharch
- Bod yn agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Mae'r Ddeddf uchod wedi newid y ddeddfwriaeth bresennol i'w gwneud hi'n ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymysg aelodau o'u grŵp.

Nid yw'r ddyletswydd hon yn golygu bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn gyfrifol am y modd y mae eu haelodau'n ymddwyn, gan mai cyfrifoldeb yr unigolyn byw hynny o hyd. Fodd bynnag, mae'n golygu bod yn rhaid i arweinwyr gymryd camau cadarnhaol i gynnal safonau uchel ymysg aelodau o'u grŵp.

Mae'r canllawiau drafft perthnasol, a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r Ddeddf, yn awgrymu pa fath o gamau rhesymol y dylai arweinwyr grwpiau eu cymryd yn cynnwys:-

- Mynychu a dangos ymrwymiad personol i sesiynau datblygu eu hyfforddiant berthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb a safonau;
- Annog aelodau'r grŵp i fynychu sesiynau datblygu neu hyfforddiant perthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb a safonau;
- Gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n cael eu henwebu i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;
- Hyrwyddo cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu a chyfarfod â'r grŵp, ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r Cyngor a phwyllgorau;
- Hyrwyddo gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y Cyngor, a gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i ddatrys materion yn lleol;
- Hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb;
- Mynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Safonau'r Cyngor, ar gais, i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- Gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau sy'n ymwneud â gwella safonau;

- Cydweithio gydag arweinwyr grwpiau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor.

Nod y ddyletswydd newydd yw meithrin a chefnogi diwylliant sy’n rhagweithiol, sy’n gweithredu a sydd ddim yn caniatáu ymddygiad amhriodol.

**Beth mae’r Cyngor yn ei wneud?**

Rydym wedi holi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i weld a oes unrhyw adnoddau ar gael i helpu’r Cyngor gefnogi arweinwyr grwpiau gyda’u cyfrifoldebau ychwanegol.

Mae CLlLC wedi’n hysbysu nad yw’n bwriadu darparu hyfforddiant, nac adnoddau, ar y dyletswyddau hyn.

Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn darparu’r cymorth canlynol:

- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Pwyllgor Safonau ac arweinwyr grŵp i drafod materion yn ymwneud â safonau. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 15 Medi 2022
- Mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gael i bobl aelod yn https://ynysmon.learningpool.com/login/index.php
- Mae’r Cyfansoddiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cynnwys Protocol ar Berthnasau i Aelodau a Swyddogion, sy’n ceisio annog perthnasau priodol rhwng swyddogion ac aelodau
- Yn ôl y gyfraith mae’n rhaid i bob aelod ymrwymo i’r Cod Ymddygiad i Aelodau ar ôl cael eu hethol
- Mae aelodau’r Pwyllgor Safonau hefyd ar gael i gynghori arweinwyr grŵp ar faterion yn ymwneud â’r Cod Ymddygiad
- Mae achosion o dorri’r Cod Ymddygiad yng Nghymru ac unrhyw gosbau gan bwyllgorau safonau lleol neu gan Banel Dyfarnu Cymru yn eitem sefydlog ar agenda’r Pwyllgor Safonau
- Mae’r Pwyllgor Safonau yn anfon newyddlen sy’n cynnwys dolenni i’r adroddiadau hyn at bob aelod o’r Cyngor yn dilyn pob cyfarfod o’r Pwyllgor
- Cyfle i bob aelod gael adolygiad datblygu personol a chefnogir pob aelod i gyhoeddi adroddiad blynyddol o’u gweithgareddau a hyfforddiant/datblygiad.
- Mae Protocol Datrysiad Lleol newydd wedi cael ei ddatblygu ac mae’r Pwyllgor Safonau a’r arweinwyr grŵp yn ei drafod ar hyn o bryd. Bydd y Protocol yn gonglfaen i’r gyfundrefn safonau gyda Richard Penn yn nodi yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru ei fod yn argymell y dylai pob cyngor gael Protocol er mwyn helpu i ‘fynd i’r afael ag unrhyw gwynion neu bryderon lefel isel cyn iddynt waethygu’.

**Argymhelliad**

Gofynnir i arweinwyr grwpiau ystyried yr adroddiad a pha gefnogaeth sydd ei angen arnynt, os oes angen unrhyw gefnogaeth o gwbl, i’w helpu i gyflawni’r ddyletswydd statudol newydd hon yn effeithiol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Aelodau Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r ddau gynghorydd cymuned a benodwyd i'r Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sydd yn cynnwys dim mwy na 9 aelod, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yn cynnwys pum aelod annibynnol, dau gynghorydd cymuned (gyda'r ddwy sedd yn wag) a dau gynghorydd sir (a benodir yn flynyddol gan y Cyngor). Mae gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma.

Rhaid i aelodau cyngor cymuned gael eu henwebu ar y cyd gan y cynghorau cymuned yn dilyn etholiad llywodraeth leol (neu os bydd un ohonynt yn rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd cymuned ar unrhyw adeg).

Felly, yn unol â'r broses aethpwyd ati i benodi dau gynghorydd cymuned i Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022.

## 2. PROSES

Ceir manylion am y broses i benodi dau gynghorydd cymuned i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad ar gael ar y ddolen hon.

Ar 30 Mehefin, ysgrifennodd y Swyddog Monitro at holl glercod y cynghorau cymuned yn gofyn am enwebiadau erbyn 30 Medi 2022 fan bellaf. Cafodd nodyn atgoffa ei anfon ar 12 Medi 2022. Erbyn y dyddiad cau, roedd pedwar enwebiad dilys wedi dod i law.

Ar 6 Hydref 2022, cynhaliwyd pleidlais bost gyda'r holl gynghorau cymuned yn gofyn iddynt ddewis hyd at ddau o'r pedwar ymgeisydd (oherwydd bod dwy sedd wag ar y Pwyllgor). Gofynnwyd iddynt ddychwelyd y papur pleidleisio i'r Swyddog Monitro erbyn 19 Tachwedd 2022. Cafwyd ymateb gan 16 o gynghorau tref a chymuned a derbyniwyd 31 o bleidleisiau.

Ar 23 Tachwedd 2022, dilyswyd y broses a ddilynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a chadarnhawyd pwy oedd yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Er bod yr enwebiadau'n cael eu gwneud ar y cyd gan y 40 cyngor tref a chymuned yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn, rhaid i'r penderfyniad i benodi'r ddau gynghorydd llwyddiannus fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau gael ei wneud yn ystod cyfarfod ffurfiol o Gyngor Sir Ynys Môn. Disgwylir i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022.

Os ydi'r Cyngor yn cytuno, bydd y ddau gynghorydd yn cael eu penodi fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau tan yr Etholiadau llywodraeth leol nesaf neu cyhyd â'u bod yn parhau fel cynghorwyr cymuned; pa bynnag un sydd gyntaf.

## 3. YMGEISWYR LLWYDDIANNUS

Yn dilyn y bleidlais y ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:-

- Cynghorydd Margaret Ann Thomas o Gyngor Tref Llangefni a
- Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran

## 4. PENDERFYNIAD Y CYNGOR SIR

Rhoddir diweddariad llafar ar y trafodaethau a'r argymhelliad a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022 yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14 Rhagfyr 2022.

## 5. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor Safonau yn

(a) nodi cynnwys yr adroddiad hwn; a

(b) derbyn diweddariad llafar ar benderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2022 mewn perthynas â'r penodiadau hyn.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am yr hyfforddiant Cod Ymddygiad a gynigwyd i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn yr etholiad ym Mai 2022** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

Mae dyletswyddau statudol y Pwyllgor Safonau'n cynnwys hyrwyddo a chynnal safon uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr, cynorthwyo Cynghorwyr i ddilyn eu Cod Ymddygiad a threfnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i Gynghorwyr Sir a hefyd aelodau'r Cynghorau Cymuned.

Cynhaliwyd etholiadau ar gyfer Cynghorwyr yn holl Gynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn ar 5 Mai, 2022. Teimlai'r Pwyllgor Safonau ei bod yn amser addas i drefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

## 2. COD YMDDYGIAD

Rhaid i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu Cod Ymddygiad. Mae Cod Ymddygiad safonol ar gyfer holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru; cynnwys y Cod statudol hwn yw'r gofyn lleiaf. Gall pob awdurdod perthnasol benderfynu os yw am gynnwys gofynion ychwanegol o fewn ei God, ond ni all Cyngor ddileu unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Cod statudol. Mewn gwirionedd, mae mwyafrif y Cynghorau'n mabwysiadu'r Cod Ymddygiad statudol fel y'i drafftiwyd.

Bydd pob aelod o'r Cyngor yn arwyddo addewid wrth dderbyn swydd fel Cynghorydd sy'n cadarnhau eu hymrwymiad i ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad sydd wedi ei fabwysiadu gan eu Cyngor.

## 3. DIGWYDDIADAU HYFFORDDI

Cynigwyd hyfforddiant Cod Ymddygiad ar-lein, wedi ei ddarparu gan Un Llais Cymru, gan y Pwyllgor Safonau i holl aelodau a chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd modd i'r sesiynau gynnwys hyd at 30 o fynychwyr ac roeddent yn para tua 1.5 awr.

Anfonwyd gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Cynghorau Tref a Chymuned ar 12 Awst 2022 yn eu gwahodd i un o'r pedwar sesiwn posib:

| **Dyddiad** | **Amser** | **Iaith y digwyddiad** |
|---|---|---|
| 04.10.2022 | 14.00 | Cymraeg |
| 06.10.2022 | 18.30 | Saesneg |
| 18.10.2022 | 14.00 | Saesneg |
| 20.10.2022 | 18.30 | Cymraeg |

Gofynnwyd i'r clercod gysylltu â swyddog penodol o'r Cyngor Sir er mwyn cadarnhau enwau'r unigolion oedd yn dymuno mynychu'r hyfforddiant a'u dewis o sesiwn.

Soniwyd am y cynnig o hyfforddiant Cod Ymddygiad a'r trefniadau uchod yn Newyddlen mis Medi'r Pwyllgor Safonau hefyd.

Ni chynhaliwyd y sesiwn ar 18.10.2022 oherwydd niferoedd isel. Trefnwyd fod y rhai hynny a oedd wedi cofrestru eu diddordeb yn mynychu un o'r dair sesiwn arall.

## 4. Y RHAI A FYNYCHODD A'U CYNGHORAU TREF/CYMUNED

Dyma'r niferoedd a fynychodd un o'r dair sesiwn oedd yn cael eu cynnig:

| **Dyddiad** | **Amser** | **Iaith y digwyddiad** | **Nifer o unigolion oedd wedi cofrestru eu diddordeb mewn mynychu hyfforddiant** | **Nifer o unigolion a fynychodd y sesiwn hyfforddiant** |
|---|---|---|---|---|
| 04.10.2022 | 14.00 | Cymraeg | 9 | 7 |
| 06.10.2022 | 18.30 | Saesneg | 22 | 17 |
| 20.10.2022 | 18.30 | Cymraeg | 17 | 13 |
| CYFANSWM | | | 48 | 37 |

Mae'r tabl yn **Atodiad 1** yn manylu ar y nifer a fynychodd bob Cyngor Tref a Chymuned.

O'r 90 lle a oedd ar gael yn yr Hyfforddiant, cofrestrodd 48 o bobl a mynychodd 37 yr Hyfforddiant. Ni wnaeth clercod nac aelodau 29 o'r 40 Cyngor Tref a Chymuned yn Ynys Môn fynychu'r sesiynau hyfforddiant a gynigwyd.

## 5. YW HYFFORDDIANT AR Y COD YN FANDADOL?

Er ei bod yn debygol fod y Pwyllgor Safonau'n ystyried mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn arfer dda, nid oes unrhyw ofyn statudol ar Gynghorwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar y Cod. Y gofyn statudol yw bod y Pwyllgor Safonau'n sicrhau bod hyfforddiant ar ddarpariaeth y Cod Ymddygiad ar gael i Gynghorwyr.

Bydd y Pwyllgor Safonau'n ymwybodol bod Cod Ymddygiad aelodau Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys gofyn sydd wedi ei fabwysiadu'n lleol (nid yw wedi ei gynnwys yn y Cod statudol) i aelodau fynychu sesiwn hyfforddiant y Cod Ymddygiad o fewn chwe mis o gael eu hethol –

> *Rhaid i chi fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol. [*Paragraff 4(d)]

Byddai methiant i gydymffurfio â'r gofyn hwn yn golygu byddai'r aelod yn agored i gŵyn yn cael ei gwneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am dorri'r Cod Ymddygiad.

Fodd bynnag, bydd bob Cynghorydd Tref a Chymuned yn destun y Cod Ymddygiad sydd wedi ei fabwysiadu gan eu Cyngor Tref neu Gymuned berthnasol, ac mae'n debygol na fyddai'r Cod hwnnw'n cynnwys gofyniad o'r fath am fynychu hyfforddiant.

## 6. BUDDION HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU

Mae hyfforddiant yn fater sydd wedi ei godi gan y Pwyllgor Safonau mewn adolygiadau blaenorol o Gynghorau Tref a Chymuned; mae'r Pwyllgor Safonau wedi annog Cynghorau i ystyried gofynion hyfforddiant ei aelodau, yn arbennig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

Mae mynychu hyfforddiant o'r fath yn cynorthwyo Cynghorwyr drwy ddarparu gwybodaeth ar gynnwys y Cod Ymddygiad a sut mae'n effeithio arnynt yn eu rôl fel Cynghorwyr ac yn eu bywydau personol; mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt gael gwybodaeth ymarferol a gofyn cwestiynau.

Petai Cynghorwyr yn wynebu cwyn am dorri'r Cod Ymddygiad, mae methiant i fynychu hyfforddiant ar y Cod yn cael ei ystyried fel ffactor lliniaru pan fydd y Pwyllgor Safonau / Panel Dyfarnu Cymru wedi ei ystyried fel cosb [gweler y Canllaw ar Gosbau sydd wedi ei gyhoeddi'n flaenorol gan Banel Dyfarnu Cymru].

Nodir hefyd ei bod yn ofynnol fod Cynghorau Cymuned yn creu cynllun hyfforddiant blynyddol ar gyfer ei Gynghorwyr a gweithwyr (o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Dylai'r cynllun cyntaf fod wedi ei gyhoeddi gan Gynghorau erbyn hyn [y gofyn oedd o fewn 6 mis i'r etholiad (ar 5 Mai 2022)]. Er nad oes rhaid i hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gael ei gynnwys yn y cynllun hyfforddiant hwn, mae'n debygol y byddai'n cael ei gynnwys neu o leiaf yn cael ei ystyried i gael ei gynnwys.

## 7. ARGYMHELLION

A. Bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac **Atodiad 1** ac, yn benodol, y wybodaeth ynghylch (a) nifer y rhai a fynychodd y sesiynau hyfforddiant a (b) nifer y Cynghorau Tref a Chymuned oedd hefo neb yn mynychu'r sesiynau hyfforddiant.

B. Bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried sut mae am symud ymlaen i gyfathrebu'r eitem hon gyda'r Cynghorau Cymuned. A yw am gael ei gynnwys yn y Newyddlen? Neu a yw'r Pwyllgor eisiau ei grybwyll yn y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned? Oes unrhyw awgrymiadau eraill?

| | **Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council** | **Nifer yr unigolion wnaeth gofrestru / Number of registered individuals** | **Nifer yr unigolion a fynychodd / Number of attendees** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymuned **Aberffraw** Community Council | 0 | 0 |
| 2 | Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | 0 | 0 |
| 3 | Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | 8 | 7 |
| 4 | Cyngor Cymuned **Bodedern** Community Council | 0 | 0 |
| 5 | Cyngor Cymuned **Bodffordd** Community Council | 0 | 0 |
| 6 | Cyngor Cymuned **Bodorgan** Community Council | 0 | 0 |
| 7 | Cyngor Cymuned **Bryngwran** Community Council | 3 | 2 |
| 8 | Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | 0 | 0 |
| 9 | Cyngor Cymuned **Bro Cwm Cadnant** Community Council | 0 | 0 |
| 10 | Cyngor Cymuned **Bro Cylch y Garn** Community Council | 0 | 0 |
| 11 | Cyngor Cymuned **Llanbadrig** Community Council | 0 | 0 |
| 12 | Cyngor Cymuned **Llanddaniel-Fab** Community Council | 0 | 0 |
| 13 | Cyngor Cymuned **Llanddona** Community Council | 1 | 1 |
| 14 | Cyngor Cymuned **Llanddyfnan** Community Council | 0 | 0 |
| 15 | Cyngor Cymuned **Llaneilian** Community Council | 1 | 1 |
| 16 | Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | 0 | 0 |
| 17 | Cyngor Cymuned **Llaneugrad** Community Council | 0 | 0 |
| 18 | Cyngor Cymuned **Llanfachraeth** Community Council | 0 | 0 |
| 19 | Cyngor Cymuned **Llanfaelog**Community Council | 0 | 0 |
| 20 | Cyngor Cymuned **Llanfaethlu** Community Council | 0 | 0 |
| 21 | Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | 14 | 13 |
| 22 | Cyngor Cymuned **Llanfair yn Neubwll** Community Council | 5 | 0 |
| 23 | Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | 2 | 1 |
| 24 | Cyngor Cymuned **Llanfihangelesceifiog** Community Council | 0 | 0 |
| 25 | Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | 0 | 0 |
| 26 | Cyngor Cymuned **Llangoed a Phenmon / Llangoed and Penmon** Community Council | | 0 |
| 27 | Cyngor Cymuned **Llangristiolus** Community Council | 2 | 1 |
| 28 | Cyngor Cymuned **Llanidan** Community Council | 1 | 0 |
| 29 | Cyngor Cymuned **Mechell** Community Council | 0 | 0 |
| 30 | Cyngor Cymuned **Moelfre** Community Council | 0 | 0 |
| 31 | Cyngor Cymuned **Penmynydd a Star / Penmynydd and Star** Community Council | 0 | 0 |
| 32 | Cyngor Cymuned **Pentraeth** Community Council | 5 | 5 |
| 33 | Cyngor Tref **Porthaethwy / Menai Bridge** Town Council | 0 | 0 |
| 34 | Cyngor Cymuned **Rhoscolyn** Community Council | 0 | 0 |
| 35 | Cyngor Cymuned **Rhosybol** Community Council | 0 | 0 |
| 36 | Cyngor **Rhosyr** Council | 0 | 0 |
| 37 | Cyngor Bro **Trearddur** Community Council | 0 | 0 |
| 38 | Cyngor Cymuned **Tref Alaw** Community Council | 0 | 0 |
| 39 | Cyngor Cymuned **Bro Trewalchmai** Community Council | 0 | 0 |
| 40 | Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | 6 | 6 |
| | **CYFANSWM / TOTAL** | **48** | **37** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Rhagfyr 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I gynghori ar gylch gorchwyl y Fforwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru cryn amser yn ôl, er mwyn darparu rhwydwaith o gefnogaeth a chyfle i rannu arfer dda rhwng aelodau annibynnol y Pwyllgorau Safonau yng Ngogledd Cymru. Yn fwy diweddar, ehangwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i gynnwys cynrychiolwyr o brif gynghorau Powys a Cheredigion.

1.2 Un o'r argymhellion wnaethpwyd fel rhan o Adolygiad Penn i'r Drefn Foeseg yng Nghymru oedd y dylid ehangu'r Fforwm cyfredol er mwyn cynnwys Cymru gyfan, ac felly creu Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol.

1.3 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Penn, adroddodd Swyddogion Monitro'r prif gynghorau, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru fod cefnogaeth i greu'r Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol gan eu hawdurdodau perthnasol.

## 2. CEFNOGAETH GAN GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU (CLlLC)

2.1 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi cadarnhau ei ddiddordeb yn y cynnig hwn a'i barodrwydd i gynorthwyo'r Fforwm gyda chefnogaeth ymarferol, weinyddol. Mae hyn yn cynnwys rhan CLlLC yn anfon rhaglenni, paratoi cofnodion o gyfarfodydd ffurfiol a pharatoi adroddiadau ar gyfer dadansoddi trefniadau gwahanol ar draws Cymru.

## 3. CYLCH GORCHWYL Y FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU CENEDLAETHOL

3.1 Mae copi o’r Cylch Gorchwyl arfaethedig wedi ei gynnwys fel **ATODIAD 1**. Bydd y Cylch Gorchwyl yma’n cael ei fabwysiadu yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm. Gall y ddogfen hon newid os bydd y trefniadau’n datblygu.

3.2 Dyma ydi’r prif egwyddorion sydd wedi eu cynnwys:

- Pwrpas y Fforwm yw rhannu arfer gorau a darparu lleoliad i ddatrys problemau mewn perthynas â gwaith Pwyllgorau Safonau ar draws y cynghorau/awdurdodau perthnasol yng Nghymru.
  - Bydd aelodaeth y Fforwm yn cael ei gyfyngu i Gadeiryddion Pwyllgor Safonau y 22 prif gyngor, 3 awdurdod tân ac achub a’r 3 awdurdod parc cenedlaethol. Caniateir eilyddion, ac fel arfer Is-Gadair y Pwyllgor Safonau perthnasol fydd hyn.
  - Penodir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Fforwm gan yr aelodau ymysg eu haelodaeth a hynny am gyfnod o ddwy flynedd.
  - Bydd y Fforwm yn gwneud penderfyniadau am faterion gweinyddol sy'n ymwneud â'i arferion ei hun ond gwneir penderfyniadau eraill gan Bwyllgorau Safonau unigol. Gwneir penderfyniadau drwy gonsensws ond lle mae angen penderfyniad ffurfiol, yna bydd un bleidlais fesul awdurdod, a Chadeirydd y Fforwm fydd â'r bleidlais fwrw.
  - Caiff eitemau ar gyfer y rhaglen eu hawgrymu gan Swyddogion Monitro, yn dilyn mynychu cyfarfodydd o Grŵp Swyddogion Monitro - Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol, a thrafodaethau â'u Pwyllgorau Safonau. Bydd gan y Fforwm flaengynllun gwaith hefyd ac fe all aelodau gyfrannu ato.
  - Bydd dau gyfarfod ffurfiol o’r Fforwm y flwyddyn – rhyw fis neu fwy ar ôl cyfarfod y Grŵp Swyddogion Monitro - Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol fel y gall y rhaglen gael ei chytuno arni a’i chylchredeg.
  - Bydd pob rhanbarth yn anfon cynrychiolydd fel Swyddog Monitro. Mae’r Cyngor yma’n rhan o ranbarth 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru.

3.3 Mae cyfarfod cyntaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol ar 8 Rhagfyr 2022. Mae’r Rhaglen yn y cyfarfod cyntaf yn cynnwys penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd; rôl a Chylch Gorchwyl y Fforwm (**Atodiad 1**). Bydd hefyd yn ystyried diweddariad ar Adroddiad Penn; trafodaeth am weithrediad y ddyletswydd newydd ar arweinwyr grŵp a sut yr adroddir ar hyn fel rhan o adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau. Ceir cyflwyniad gan Siaradwr Gwadd o swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn a’r cylch gorchwyl sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 1**.

4.2 Bod y Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ddarparu diweddariad ar lafar yn dilyn ei bresenoldeb yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol ar 8 Rhagfyr 2022.

**<u>Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol</u>**
**<u>Cylch Gorchwyl (2022)</u>**

Diben y Fforwm yw rhannu arfer gorau a darparu fforwm i ddatrys problemau ar draws y

1) 22 prif gyngor
2) 3 awdurdod tân ac achub
3) 3 awdurdod parc cenedlaethol

mewn perthynas â gwaith Pwyllgorau Safonau.

Swyddogaeth y fforwm yw rhannu gwybodaeth ac felly bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud gan y Pwyllgorau Safonau unigol. Ar adegau, bydd y Fforwm angen gwneud penderfyniadau am faterion gweinyddol sy'n ymwneud â'i arferion ei hun a'i weinyddiaeth o gyfarfodydd.

- Aelodaeth - Cadeirydd, gyda'r Is-gadeirydd i fynychu yn absenoldeb y Cadeirydd.
- Fel arfer, gwneir penderfyniadau drwy gonsensws ond lle mae angen penderfyniad ffurfiol, yna bydd un bleidlais fesul awdurdod, a Chadeirydd y Fforwm fydd â'r bleidlais fwrw.
- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - bob dwy flynedd er mwyn cael cysondeb.
- Cefnogaeth Ysgrifenyddol - bydd CLlLC yn anfon rhaglenni, yn paratoi cofnodion ac fe all baratoi adroddiadau sylfaenol yn dadansoddi'r ymarfer ledled Cymru. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan swyddogion i baratoi adroddiadau mwy estynedig yn ddibynnol ar swyddog monitro o gyngor yn gwirfoddoli/cytuno i wneud y gwaith.
- Amlder Cyfarfodydd - 2 gyfarfod y flwyddyn ar ôl cyfarfod y Grŵp Swyddogion Monitro - Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol.
- Bydd eitemau ar gyfer y rhaglen yn cael eu hawgrymu gan Swyddogion Monitro, yn seiliedig ar drafodaethau â'u Pwyllgorau Safonau ac yn ogystal, bydd gan y Fforwm flaengynllun gwaith ac fe all aelodau gyfrannu ato.
- Gofynnir i bob rhanbarth anfon 1 swyddog monitro i gynrychioli'r awdurdodau lleol yn yr ardal honno, gydag 1 swyddog monitro ychwanegol yr un ar gyfer awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol (gan roi cyfanswm o 6 swyddog monitro).

*Dylid cael rhaglen fer ar gyfer pob cyfarfod, a Sesiwn Hyfforddi ar ei ôl.*
*Gallai siaradwyr o Swyddfa'r Ombwdsmon, Panel Dyfarnu Cymru a Llywodraeth Cymru annerch y Fforwm ar eu gwaith.*